YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MAI, 1874. [RHIF 15.

Profwch bob peth : deliwch yr hyn sydd dda.—PAUL.

Y BEIBL A'R NEWYDDIADUR.

Darlith gan y Parch. Brooke Herford, Manchester, Un o Olygyddion yr "Unitarian Herald."

YR wyf yn meddwl pe byddwn o herwydd rhyw achos yn cael fy nghyfyngu i ddarllen dau beth neillduol, y dewiswn y papyr dyddiol a'r Beibl; a hyny o herwydd y rheswm eu bod yn ymddangos i mi fel gyda'u gilydd yn cuddio maes eangaf gwybodaeth ddynol—yn rhoddi i ni ddau fath hwnw o ymborth ag sydd fwyaf angenrheidiol i ni. Yn y newyddiadur mae genych holl ddygwyddiadau pwysig a dyddorol yr amser presenol wedi eu cydgynnull; yn y Beibl mae genych sylwedd doethineb yr amser sydd wedi myned heibio. Yn y newyddiadur yr ydych yn gweled adlewyrchiad bythgyfnewidiol o fywyd gweithgar, pryderus a diflanol dyn; yn y Beibl mae genych yn ddistaw ac yn annghyfnewidiol amlygiad egluraf o yspryd ac ewyllys Duw. Gallwch alw y newyddiadur yn gynnrychiolydd amser, a'r Beibl yn gynnrychiolydd tragywyddoldeb, ac mae dyn yn perthyn i bob un o honynt, ac mae yn gorphwys arno i fyw ar gyfer pob un o honynt. Ac felly nid yn unig mae ar ddyn eisieu y ddau hyn, ond gall wrth eu darllen hwy yn unig gyda chalon ddifrifol, ystyriol a chariadus, wneuthur ei hun i raddau pell yn ddyn gwybodus a diwylliedig. Ac er na bydd gorfod arnoch i gyfyngu eich sylw i'r ddau hyn, etto yr wyf yn meddwl fod ganddynt eu swydd a'u gwerth neillduol. Gosodaf y peth yn y ffordd yma: y dylai pawb fforddio amser, os yn bossibl, i ddarllen pethau ereill, ond fod yn rhaid iddynt fforddio amser i ddarllen y rhai hyn. Pan oeddem yn blant arferid meddwl mai y ffordd iawn oedd cadw y peth goreu i'r diwedd, felly siaradaf yn flaenaf am y newyddiadur. Nid ydwyf yn bwriadu myned i eithafoedd wrth ganmawl newyddiaduron. Maent wedi cael eu galw yn

bedwaredd ystâd y deyrnas ; fel pe byddai galluoedd llywodraethol y wlad yn cael eu gwneyd i fyny o frenin, arglwyddi, Tŷ y Cyffredin, a'r newyddiaduron ; ac mae dywediad enwog o eiddo Richard Cobden, fod mwy i'w ddysgu oddiwrth un *sheet* o'r *Times*, nag oddiwrth holl hanesyddiaeth yr hen Roegwr Thucydides. Nis gallaf fyned yn gwbl mor bell a hyna, ond etto yr wyf yn dal fod darlleniad difrifol ac ystyriol newyddiadur yn un o angenrheidiau bywyd ; oblegyd mae y newyddiaduron yn ymwneyd yn neillduol â dynolryw, ac yn dweyd wrthym beth sydd yn myned yn mlaen yn myd mawr gweithgar dynion yn yr amser presenol ; ac ai nid hyn yw y peth blaenaf mae ar ddyn angen gwybod ? Yn sicr mae'n dal agosach cyssylltiad â ni i wybod yn nghylch y byd dynol nag yn nghylch y byd materol, i wybod beth sydd yn myned yn mlaen yn hanes dyn yn awr, nag am yr hyn sydd wedi ei wneyd yn yr amser a fu. 'Does genyf fi ddim edmygedd mawr o'r meddwl hwnw sydd yn caru ymdrafferthu uwchben planigion, gweddillion a chofnodau llenyddiaeth yr oesoedd o'r blaen, ac nad yw yn gofalu dim am yr ymdrechion mawrion ydynt yn myned yn y blaen heddyw, nac yn talu un sylw i'r pethau cyffredin hyny ydynt yn dal perthynas a daioni cymdeithas. Gall dyn deimlo dyddordeb mewn pethau hen a phell oddiwrtho, ac hefyd yn y bobl sydd yn agos atto yn ogystal. Yr oedd ef yn ddyn doeth yn ei amser a dywedodd " mae pob peth ag sydd yn ddynol yn dal perthynas a mi." A'r byd yn y presenol sydd yn symud yn fyw o'n blaen ni, mae a fynom ni yn flaenaf. Oddiwrth y presenol fel canolbwynt gallwch estyn eich meddwl, eich dyddordeb a'ch gwybodaeth mor bell ag y mynoch—yn ol i'r amser pan oedd y wlad yma yn cael ei thrigianu gan anwariaid hanner noeth ; yn ol yn mhellach etto i'r hen gyfnodau daearegol, pan yr oedd y glo yr ydych yn osod ar y tân yn ei ffurf gyntefig yn fforestydd mawrion y cynfyd ; neu ymaith yn mhell at y seren fechan yna mae y *telescope* yn ganfod ar ororau yr eangder ; ond yn mlaenaf ac uwchlaw pob peth meddyliwch am ddyn a'r byd sydd yn agos oddiamgylch i chwi—a'r newyddiadur. Ac fe garwn ddweyd gair wrth fyned heibio yn nghylch defnyddio newyddiaduron i'w darllen gartref, —y benywod a'r plant i gael rhan ynddynt. Yr ydych yn gwybod am lawer o artrefloedd lle mae y newyddiadur y peth cyntaf ag mae y dyn a'i eisieu yn y bore ; mae'n eistedd i lawr wrtho, yn ei ddarllen drosodd iddo ei hun, byth yn dweyd gair wrth ei wraig, na gair wrth ei blant, os na fydd am iddynt i gadw llai o swn ; ac yna mae yn taflu y papyr i'r neilldu. Ac os beiddia ei wraig i ofyn iddo, os oes rhyw beth yn y papyr, ei ateb yw, " Nid oes dim yn y byd ynddo." Yn awr, 'rwyf yn dweyd, peidiwch bod yn hunanol uwchben eich newyddiadur. Peidiwch dweyd wrthoch eich hunan, " Oh ydyw hi ddim yn ei ddeall." Paham nad yw ? Oblegyd nad ydych erioed wedi treio i'w helpu i ddeall. A chofiwch hefyd, nad oes gan fenywod yr un siawns i ddeall ag sydd gan ddynion. Mae dynion braidd yn sicr o glywed beth sydd yn myned yn mlaen, hyd y nod os na fyddant yn darllen y papyr. Maent yn clywed y newyddion ar yr heol neu yn y gwaith, yn gweled cynnwysiad y papyrau ar y *bills* wrth ddrysau y

siopau, yn clywed dynion oddiamgylch iddynt yn ymdrin a phob peth sydd yn dygwydd yn y byd. Ond nid oes gan y benywod yr un cyfleusdra. A pha fwyaf gofalus y bo'r menywod i gadw y plant yn gryno, y tŷ yn lân, a'r prydiau bwyd yn barod, y lleiaf o amser fydd ganddynt i fyned allan i glywed y newyddion; ac felly mae mwy o rwymau ar eu gwyr i dreio i wneyd i fyny am hyn, ac i ddweyd wrthynt am yr hyn sydd yn pasio yn y byd oddiamgylch iddynt. Ond yr wyf fi bob amser yn cymhell benywod, pan y maent yn gallu, i ddarllen y newyddiadur drostynt eu hunain, ac i beidio ymddibynu ar gymhorth oddiwrth neb; a'i ddarllen yn iawn hefyd. Yn bresenol pan mae benywod yn cael gafael ar newyddiadur, mae yn fynych yn dygwydd mai hyny sydd o fwyaf o ddyddordeb i wrrywod yw y peth diweddaf maent hwy yn edrych am dano. Maent y funyd yr agorant y papyr yn hela ar ol y genedigaethau, y priodasau, a'r marwolaethau, a damweiniau arswydus, a phrawf Tichborne; ond am faterion gwleidyddol pasiant heibio iddynt yn ddisylw, a byddai cystal o'u rhan hwy i argraffu y newyddion tramor mewn llythyrenau Groeg. Yn awr fe garwn weled y fath gyfnewidiad yn hyna fel ag y byddo pob benyw yn darllen y papyr drosti ei hunan, nid yn unig er mwyn rhyw hanner awr o ddifyrwch, ond gyda'r bwriad penderfynol o gymmeryd mwy o ran yn y pethau ydynt yn tynu sylw ei gwr a'i phlant, a mwy o ddyddordeb yn y dygwyddiadau a'r pynciau ydynt yn cyffroi calon y byd. Tra yr wyf yn siarad fel hyn am y pwys o wybod beth sydd yn myned yn y blaen yn y byd, yr wyf yn rhwymedig i ddweyd fod ochr arall i'r ymresymiad; oblegyd y ffaith yw, fod llawer o bethau yn pasio yn y byd ag sydd yn ddrwg ac yn bechadurus, ac nad oes un daioni i glywed nac i ddarllen am danynt, ac felly mae llawer yn y newyddiaduron nad yw yn tueddu i eangu y meddwl, ond yn unig i foddloni cywreinrwydd, ac hyd y nod ambell waith i gyffroi teimladau anianol a llygredig. Ond mae yn rhaid ystyried fod y pethau yma yn y newyddiaduron, oblegyd eu bod yn y byd. Mae y newyddiaduron yn adlewyrchu manau goleu yn gystal a chysgodau cymdeithas. Ac i'r pur mae pob peth yn bur, tra y gwel yr anmhur yn mhob man yr hyn a'i gwna yn fwy anmhur. Mae llawer yn myned trwy y byd yma fel fylturod yn edrych allan yn mhob cyfeiriad am gelaneddau brwnt a llygredig, a deuant o hyd iddynt ar faes y newyddiaduron fel yn mhob man arall. Ambell waith mae rhagor o hyny na ddylai fod. Mae rhai papyrau yn byw trwy bentyru yn wythnosol yr holl ysgelerder ac aflendid sydd yn myned yn mlaen mewn cymdeithas; ac nis gellir dweyd dim yn rhy ddrwg am y rhai a wnant y cyfryw bethau; ond ar y cyfan yr wyf yn credu fod ein newyddiaduron rheolaidd y rhai mwyaf gweddaidd yn y byd. Mae yn rhaid, wrth gwrs, fod llawer ag sydd yn ddrwg ac yn adgas yn cymmeryd lle; ac os oes y fath bethau mae'n well gwybod am danynt. Os oes ysmotiau duon ar ein cyflwr cymdeithasol, nid yw o un defnydd i dreio credu nad oes, a'u symud allan o'r golwg. Gwell yw gosod allan y ffaith fel y byddom yn cael ein cyffroi i wella ein cyflwr. Ac heblaw hyny, nid yw drygioni byth yn ymddangos mor adgas, a phan mae ei orchudd wedi cael ei ddiosg

ymaith a phan y mae ei wrthuni yn agored i lygaid y cyhoedd. Ond yr wyf yn ystyried mai y fendith oreu a gyfrenir gan newyddiaduron yw hyn, eu bod yn cadw yn fyw, ac yn cefnogi cydymdeimlad gwresog ac iachus rhwng dynion. Dyma un o alluoedd nerthol bywyd presenol cymdeithas sydd yn ein tynu yn agosach at ein gilydd yn erbyn y dylanwadau gwrthwynebol sydd yn tueddu i'n gwahanu a'n gwneyd yn hunanol. Mae pob loes o ddyoddefaint a phob mwynhad o lawenydd yn treiddio trwy y wlad, a thrwy'r byd bron, nes mae calon fawr dynoliaeth yn cael ei chyffroi yn mhob cyfeiriad; ac felly mae y rhai ydynt yn byw yn y llefydd mwyaf pellenig yn cael eu dwyn heb yn wybod iddynt i deimlo fel cymmydogion y naill tuag at y llall. Mae pob anffawd ddinystriol, pob damwain dorcalonus, pob gweithred o wroldeb, pob newydd da o lawenydd mawr yn cael eu fflachio ar wifrau y pellebyr, a'u cludo ar adenydd buan y wasg, hyd y nod yn ystod yr awr maent yn dygwydd. Yn awr mae hyn oll yn ein dwyn yn agosach y naill at y llall, ac yn peru i ni deimlo ein bod yn frodyr. Nid trafodaethau dibwys cymmydogaeth yn unig mae y newyddiadur yn ddwyn i'n sylw ddydd ar ol dydd, ond llawenydd a thrallod, gobaith ac ofn, codiad a chwymp meddwl, ac ymdrech y byd. Ac yr wyf yn meddwl fod hyn i gyd, yn tueddu i'n gwneyd ni yn well. Mae yn ddylanwad cynnorthwyol a dyngarol. Mae yn ein cymmeryd ni allan o honom ein hunain, yn peru i ni feddwl yn garedig am ein cyd-ddynion, yn ein calonogi i wneuthur teilyngach gwaith yn ein cylch ein hunain. Os wyf fi wedi bod newydd ddarllen am filiynau yn newynu yn India i'r rhai y byddai llonaid llaw o *rice* yn rhodd o'r nefoedd, nid wyf yn teimlo mor barod i achwyn am fy mod yn methu cael yr hyn oll oll sydd eisieu arnaf. Os byddwch yn dygwydd darllen cyn dechreu gwaith y dydd, am ryw weithred o ddewrder a gwroldeb a gofnodir ddydd ar ol dydd yn y papyrau—nis gallwch ar ol hyny lai na throi gyda chalon ryw faint yn fwy dewr i wynebu ar eich anhawsderau beunyddiol ac i gyflawni rhan dyn gwirioneddol yr ddynt.

Aeth y darlithydd yn mlaen wedi'n at y rhan arall o'r pwnc—y Beibl. Dywedai nas gallai y newyddiadur eu cynnorthwyo hwy pan yn drist, yn flin, ac yn siomedig,—pan y mae pethau wedi myned yn eu herbyn, ac maent yn barod i roddi i fyny ac i redeg oddiwrth eu dyledswydd; ond os troant at yr hen eiriau, "Deuwch attaf fi bawb ag sydd yn flinderog ac yn llwythog, a chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau," byddant yn sicr o gael nerth newydd i fyned rhag eu blaen. Siaradodd y darlithydd yn hyawdl ar y prysigrwydd o ddarllen y Beibl, ac wrth ymdrin â'r pwnc, dywedai: Mae rhai pobl yn dweyd, y rheswm fod y Beibl yn dal ei le yw, ei fod wedi ei ysgrifenu gan law Duw. Mae pob peth o Genesis i'r Datguddiad yn ddwyfol! Pob gair yn air Duw! A dywedant nad ydym i ymresymu yn ei gylch, ond ei gymmeryd fel ag y mae. Yn awr, nis gallaf gyttuno â hyna. 'Rwyf fi yn caru y Beibl. 'Rwyf yn meddwl nad oes un llyfr arall yn agos atto; ond etto mae ymdrechu gwneuthur allan ei fod i gyd yn air Duw o'r dechreu i'r diwedd, heb un camgymmeriad ynddo, yn ymddangos i mi fel yn gosod i fyny *glaim* ag sydd yn ddinystriol i'r Beibl

ei hunan; oblegyd os dyna beth hawlir drosto, ac os ydyw ei werth yn ymddibynu ar hyny, mae at drugaredd unrhyw un a gâ allan gamgymmeriadau ynddo. Ac mae camsyniadau ynddo. Camsyniadau mewn hanesiaeth, mewn gwyddoniaeth, ac hyd y nod mewn pethau uwch nâ hyny; oblegyd yr oedd dynion yn yr hen amser yn meddwl eu bod yn clywed Duw yn dweyd yr hyn na allasai Duw cyfiawn a da fyth fod wedi dweyd. Y ffaith yw fod y Beibl yn drysor nefol mewn llestr pridd, neu mewn llawer o lestri pridd o wahanol oesau. Wrth siarad am y Beibl teuluaidd sydd yn arferol o gael ei rwymo a'i addurno yn gostus, ond byth yn cael ei agor, dywedai i un wraig dda ddweyd wrtho ei bod bob amser yn cadw ei *thracts* a'i *rent-book* yn y Beibl, gan mae yno oedd y lle y cawsent fwyaf o lonydd. Wrth derfynu dywedai: Yr wyf yn prisio newyddiaduron fel drych y byd yr ydym yn byw ynddo; yr wyf yn eu prisio fel addysgwyr poblogaidd; yr wyf yn eu prisio am eu bod yn dwyn adref atom, er mor boenus i'n teimladau, ddrwg y byd ag sydd eisiau ei orchfygu; ond uwchlaw y cwbl, yr wyf yn eu prisio oblegyd eu bod yn ein dwyn yn agosach at lawenydd a thrallod y naill y llall, ac yn ein bywhau trwy gyffyrddiad trydanol cydymdeimladau ydynt mor eang â'r byd. Ydwyf, gyfeillion, yr wyf yn sefyll dros y newyddiadur, a thros y Beibl hefyd. Gadewch i newyddion y byd gweithgar oddiamgylch gyffroi curiadau eich cydymdeimlad a dyfnhau eich dyddordeb mewn bywyd; dysgwch yr oll a allwch oddiwrth bapyrau a llyfrau; deuwch i wybod rhywbeth am hanesiaeth os gallwch, a rhywbeth am wyddor, sydd yn dadlenu ystyr a gogoniant y greadigaeth; a rhywbeth am gerddoriaeth a barddoniaeth os gallwch; gwnewch y defnydd mwyaf ag y gallwch o'r meddwl ag mae Duw wedi roddi i chwi, ond gadewch i'ch enaid hefyd i droi i'r neilldu yn feunyddiol ar hyd lwybrau tawel hen ddoethineb y Beibl, ac yna sefydlwch eich traed ar Graig yr Oesoedd, a chymmerwch afael ar y bywyd tragywyddol. G. I.

MEDDYLIWCH DROSOCH EICH HUNAIN.

Er's llawer iawn o flynyddau yn ol, gwnelai un o freninoedd Ffrainc, yr hwn oedd fab ffyddlon i'r eglwys, ymdrechiadau egniol i beri i'w holl ddeiliaid gredu yn union fel y credai ef gyda golwg ar bethau crefyddol. Amser terfysglyd ac erledigaethus iawn oedd yr amser yma. Yr oedd y rhai a ddalient syniadau a ystyrid yn gyfeiliornus gan yr offeiriad, yn cael eu dirwyo, neu eu carcharu, neu eu gosod i farwolaeth, er mwyn eu hargyhoeddi eu bod yn gyfeiliornus, a'u gorfodi i gofleidio y gwirionedd. Ymddengys fod y brenin yn llidus dychrynllyd am fod llawer o'i bobl yn hollol groes i'w ewyllys ef, yn parhau yn ystyfnig yn ngwyneb cael eu trin mor greulon, ac wrth feddwl nad oedd dim a allasai efe wneyd osod terfyn ar heresi.

Heblaw ei ffyddlondeb i'r eglwys, yr oedd hefyd yn hoff iawn o gadw lluaws o awrleisiau, y rhai nid oeddynt mor gyffredin y pryd hwnw ag ydynt yn awr, ac edrychid arnynt fel offerynau rhyfeddol iawn. Yr oedd y breniu yn falch ar ei gasgliad lluosog o honynt; ond anfoddlonai un peth ef yn fawr, am na allai eu gorfodi i gydgerdded, neu i gadw yr un amser. Cadwai ddynion i ofalu am danynt, ac ni ystyriai un gost nac un trafferth yn ormod i beri iddynt gadw yr un amser; ond ofer oedd pob cost a thrafferth. Er eu bod yn cael eu rheoleiddio a'u gosod i gydredeg un awr, yr oeddynt yn amrywio rhyw gymmaint oddiwrth eu gilydd yn fuan; ac fe ddywedir i'r pencoronog yma ddyfod i'r casgliad synwyrol a ganlyn yn y pendraw, sef Os na allai gael haner dwsin o awrleisiau i gyd-redeg â'u gilydd, mai gwaith mwy afrwydd fyth oedd cael gan haner dwsin o greaduriaid rhesymol i gydweled â'u gilydd, gyda golwg ar bethau crefyddol yn neilldnol, ac mai gwell oedd, ar y cyfan, roddi i fyny erledigaeth, a gadael i'w ddeiliaid farnu drostynt eu hunain, a gweithredu yn ol eu barn.

Gwir yw fod y stori uchod wedi cael ei hadrodd drosodd a throsodd drachefn gan ddynion perthynol i bob sect, ond, er gwaetha'r modd nid yw y byd, gan mwyaf, ddim wedi dysgu etto y wers mae yn gyfleu. Gwir nad yw y sawl sydd mewn awdurdod yn bresenol ddim yn dirwyo, carcharu ac yn llosgi y sawl feddyliant sydd yn lletya syniadau cyfeiliornus am grefydd—yr ydym wedi myned gam yn y blaen er gwell yn y cyfeiriad yma; ond er fod gwelliant wedi cael ei effeithio, nid oes ond ychydig mewn cymhariaeth yn credu yn drwyadl, gan fod Duw wedi ein donio ni oll a gwahanol gynneddfau a thalentau, ei fod wedi bwriadu i ni feddwl drosom ein hunain, a chan fod ein meddyliau mor wahanol i'w gilydd nas gallasai fwriadu a gofyn i ni oll feddwl yr un meddyliau, neu gydolygu â'n gilydd gyda golwg ar bob pwnc bydol a chrefyddol, ac nad yw ein hiechydwriaeth yn ymddibynu ar hyny, ond ar onestrwydd a ffyddlondeb i'n hargyhoeddiadau—i eirchion gydwybod oleuedig. Dywed Dr. Priestley yn rhyw fan,—"Fod yspryd Cristionogol o fwy o werth na gwirionedd Cristionogol."

Edrychwn ar holl eglwysi poblogaidd y byd a chawn weled eu bod, nid yn unig yn cymmeryd yn ganiataol, ond yn haeru mai hwy yn unig sydd iawn, ac nid yw hyny yn un syndod, oblegyd angenrhaid yw i bob dyn feddwl hyny os yw yn onest ac yn ddifrifol, ond meddylia y cyfryw eglwysi fod pawb sydd yn meddwl yn wahanol iddynt hwy yn meddwl yn gyfeiliornus, ac oblegyd hyny yn rhwym o fod mewn perygl o gael eu colli yn dragywyddol. Codwn ni, fel Undodiaid, ein llef yn uchel yn erbyn hyn, ac nis gallwn ni, ar yr adeg bresenol, feddwl am eiriau digon grymus i osod allan ein hatgasrwydd at y dyb gul, gyfeiliornus hon.

Dalia y Pabyddion fod y Protestaniaid y tu allan i gylch cadwedigaeth, ac y mae gan Eglwys Waddoledig ein gwlad ni ei chredo Athanasiaidd, yr hon sydd yn gosod allan, os na chredwn hi, yn ddiamheu ein collir ni yn dragywydd. Gwir nad yw llawer o'r sawl sydd yn galw eu hunain yn Eglwyswyr ddim yn credu y collir yn dragywyddol

pob dyn nad yw yn credu y gredo dywyll a chreulawn hon; ond darllenir hi ar amserau pennodedig yn yr Eglwys uchod, ac y mae llawer yn proffesu ei chredu yn drwyadl—mor drwyadl ag ydynt yn eu bodolaeth eu hunain; ond nis gallwn ni ddim llai na meddwl eu bod yn amddifad iawn o yspryd yr hwn a ddaeth i'r byd fel y caem fywyd, ac y caem Ef yn helaethach; yr hwn a ddaeth ac a bregethodd y newydd da, ac i roddi ei dangnefedd i'r rhai pell ac i'r rhai agos hefyd; yr hwn ni osodai un pwys ar gredoau a seremoniau, ond ar gyfiawnder, trugaredd, cariad ac ewyllys da; yr hwn a ddywed taw y rhai sydd yn gwneuthur ewyllys ei Dad sydd yn y nefoedd a gymmeradwya Efe yn awr ac yn y dydd a ddaw; nid y dadleuwr medrus a chywrain, ac nid yr iawnffyddiog, ond yr iawn ei fywyd, y pur ei galon, a'r glân ei ddwylaw.

Y mae yr holl sectau uniongred, fel eu gelwir, yn gwahaniaethu i ryw raddau oddiwrth eu gilydd, ac er nad ydynt yn collfarnu eu gilydd, nid ydynt yn petruso dim yn nghylch collfarnu yr Undodiaid i'r lle poeth. Nid oes genym ni yr un gwrthwynebiad iddynt hwy i wahaniaethu oddiwrthym ni; y mae ganddynt yr un hawl i hyny ag sydd genym ninnau i wahaniaethu oddiwrthynt hwy; ond dywedant hwy nas gallwn ni fod yn gadwedig; y maent yn rhybuddio eu pobl rhag darllen llyfrau a chyhoeddiadau Undodaidd, ac yn neillduol rhag myned i'n capelau, ac os a rhai o'u defaid yno, drwgdybir hwy yn y man, ac amheuir iachusrwydd eu ffydd, ac efallai y cant eu hesgymuno yn y pen draw.

Fe ddywed offeiriaid a phregethwyr nas gall neb o honom ni fod yn gadwedig. Y maent, lawer o honynt, yn siarad yn ddiystyrllyd am danom, ac yn haeru mai eu ffydd hwy ydyw yr unig ffydd gadwedigol. Yn awr, yr ydym ni yn protestio yn erbyn hyn oll. Dywedwn ni, "Meddylied pob dyn drosto ef ei hunan." "Pwy wyt ti yr hwn wyt yn barnu gwas un arall? I'w Arglwydd ei hun y mae pob dyn yn sefyll neu yn syrthio." Credwn ni nas gall yr un dyn fyddo wedi ymdrechu cael allan y gwirionedd, nad beth fydd y casgliadau y daw iddynt, fod mewn perygl o ddigofaint Duw. Nid yr un fath yw meddyliau pawb dynion; nis gallant weled yr un gwirionedd yn yr un goleu. Wrth ddarllen y Beibl deallant ef yn wahanol. Yr oll a ddywedwn ni yw, "Bydded pob dyn yn sicr yn ei feddwl ei hun," "Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda." Na ddyweder ein bod ni yn ddiofal yn nghylch gwirionedd crefyddol, ac nad yw o un pwys beth mae dyn yn gredu, neu nad ydym ni yn prisio y gwirionedd fel y deliwn ef. Yr ydym yn ac wedi darllen ein Beibl, ac yr ydym wedi dysgu gwirioneddau mawrion a neillduol o bwysig ynddo, y rhai a feddyliwn ni fod Cristionogion o eglwysi ereill wedi colli golwg arnynt, neu yn eu hystyried fel pethau dibwys.

Yr ydym ni yn llawenhau ac yn gorfoleddu yn yr athrawiaethau sydd yn cael eu dal genym yn gyffredin, megys Undod ac yn neillduol tadoldeb Duw; mai Iesu yw y Crist ac Iachawdwr ysprydol y byd. Credwn ein bod yn credu yr un pethau ag a gredai ein Blaenor Mawr a'n Harweinydd at y Tad. Credwn ein bod yn dal y ffydd a roddwyd

unwaith i'r saint, ac ymdrechwn wneyd ein syniadau, a phob peth sydd yn ymddangos i ni yn bwysig ac hanfodol er ein hiachawdwriaeth yn adnabyddus i ereill; a meddyliwn, ïe, yn wir, credwn yn drwyadl eu bod yn tueddu er lles uwchaf a dedwyddwch penaf dyn; ond, ar yr un pryd, cyfaddefwn yn galonog fod y sawl sydd yn gwahaniaethu oddiwrthym, os ydynt yn ymdrechu deall beth mae'r Iesu yn ddysgu, ac yn byw yn ei ol, yn Gristionogion mor wirioneddol a ninnau, a dywedwn fod pawb dynion yn yr holl eglwysi, gan nad beth yw eu syniadau gwahanol, ïe, hyd y nod y rhai nad ydynt yn perthyn i un eglwys neillduol yn gymmeradwy gan Dduw, os ydynt yn ei garu Ef, ac yn byw yn ol y goleuni uwchaf sydd ganddynt. Os ydynt yn caru Duw a dyn, ac yn awyddus i ddyfod yn well, yn fwy goleuedig ac ysprydol. Carem weled mwy o deimlad brawdol, a mwy o gariad yn ffynu yn mhlith y gwahanol eglwysi. Dichon na ddaw yr amser byth oddiamgylch, pan y bydd dynion yn gweled lygad yn llygad. Dywedodd un dyn synwyrol unwaith, "Nad oedd ef yn dysgwyl i'r muriau rhwng y gwahanol eglwysi i gael eu dyddymu yn hollol, ond gobeithiai y bydd iddynt gael eu tynu i lawr, fel y byddont yn ddigon isel i ddynion allu siglo llaw drostynt." Dyma beth ydym ni yn hiraethu am dano, ac yn gweddio am dano. Diflanai pob annghariad pe dysgai dynion garu eu gilydd a chydweithredu er dwyn y byd at Dduw, ac nid at y gwahanol gredoau sydd yn cael derbyniad a chymmeradwyaeth gan y byd; y rhai ydynt fath o esgyrn sychion, ac achosion ymrafaelion gelyniaethus a marwol, ac nid heddwch a llawenydd yn yr Yspryd Glân.

Yn awr, pe buasai gwell teimladau yn ffynu yn yr eglwysi, a dynion yn cael eu hanog i feddwl drostynt eu hunain, yna buasent i gael allan yn fuan, fod y pethau maent yn cytuno yn eu cylch yn llawer mwy lluosog a phwysig na'r rhai maent yn annghytuno yn eu cylch. Ymdrechwn ni effeithio hyn yn ein heglwysi.

Fel y dywedasom yn barod, y mae rhai opiniynau neillduol yn cael derbyniad cyffredin yn ein plith; ond nid ydym yn honi y dylai ein holl aelodau eu dal, ac i fod eu iechydwriaeth yn ymddibynu ar hyny. Nid oes genym yr un gredo gaeth i gael ei llawnodi gan ein gweinidogion cyn ymgymmeryd â gwaith pwysig y weinidogaeth, na'n haelodau i'w derbyn cyn y gallant ddyfod yn mlaen at fwrdd yr Arglwydd. Y mae ein heglwysi wedi bod yn rhydd oddiar eu sefydliad. Daliwn gymdeithas frawdol gyda dynion o bob eglwys. Yr ydym yn gadael Swpper yr Arglwydd yn rhydd ac agored—bwrdd yr Arglwydd ydyw, ac nid yr eiddom ni, ac yr ydym yn barod i roddi croesawiad, ac yr ydym yn llawenhau wrth weled ereill o syniadau gwahanol i ni, ac yn perthyn i eglwysi ereill, yn uno â ni i gynnal côf am yr Iachawdwr. Argraffwn ar feddyliau ein gwrandawyr, yn hen ac yn ieuanc, mai nid y pethau mwyaf pwysig yw yr opiniynau sydd yn cael eu dal ond y bywyd sydd yn cael ei fyw, ac annogwn hwynt i feddwl drostynt eu hunain.

M. D. E. H.

CYRDDAU TRIMISOL Y PASG.

Cynnaliwyd hwy yn nghapel Saesneg y Parch. J. Joseph George, Highland Place, Aberdar. Dechreuwyd nos Fercher am saith, y Parch. John Evans, yn myned trwy y rhanau defosiynol, a thraddodwyd pregeth Saesneg gan y Parch. W. James, B.A., Hen Dy Cwrdd, ac un Gymraeg gan Proffessor Evans. Testun Mr. James, oedd "O herwydd Efe a wyddai beth oedd mewn dyn:" (Ioan ii. 25, rhan). Mae gwybodaeth dynion yn gyffredin am y natur ddynol yn wybodaeth o'i gwendidau a'i ffolinebau. Cymmerir yn ganiataol gan lawer fod dynion yn hollol hunanol, ac y gwerthant bob egwyddor er mwyn boddloni eu hunanoldeb. Mae llawer o ormeswyr y byd wedi dwyn i ben eu cynlluniau trwy gymmeryd mantais o wendid a llygredigaeth y natur ddynol, a llwyddant i gyrhaedd llawer o enwogrwydd trwy y moddion hyny, ond fynychaf collant eu parch a'u dylanwad cyn diwedd eu gyrfa, ac ar ol iddynt farw ni sonir am eu henwau ond gyda gwawd a dirmyg. Nid yw yr olwg yma ar y natur ddynol fel yn wan ac hunanol, mor gywir a'r hon sydd yn gosod allan fod hedyn o onestrwydd a didwylledd yn gorwedd o dan ei hunanoldeb a'i bechod yn nghalon pob dyn.

I. Mae Efengyl Iesu Grist yn gymhwys ar gyfer natur odidog dyn, wedi ei haddasu gan yr Iesu oddiar ei wybodaeth o'r hyn oedd mewn dyn. Nid oes addasrwydd ynddi ar gyfer natur hollol lygredig, ond mae'n appelio at y teimlad genedigol o'r hyn sydd yn wir ac yn iawn mewn dyn, yn cyfeirio at gymhwysderau yn gystal ag angenion yr enaid. Yr oedd yr Iesu yn gweled mewn dynion addasrwydd ar gyfer cynnydd parhaus. Edrychai arnynt fel plant Duw ac nid fel plant y diafol. Prisiai werth yr enaid dynol; ac mae y teimlad yma o werth yr enaid, ac o bwysigrwydd dyn a ddysgai'r Iesu wedi bod yn un o'r dylanwadau mawrion i ddwyn yn mlaen gynnydd a gwareiddiad dynol.

II. Y ffydd yma oedd gan Grist mewn dynoliaeth yw y ffynnonell o'r hon y tardda ein ffydd a'n gobaith ninau yn bersonol. Nid yn unig parchai'r Iesu y natur ddynol; ond parchai bawb oeddynt yn berchen ar y natur ddynol. Llefarai yn galonogol wrth bechaduriaid mawrion. "Cymmer gysur," meddai wrth un, "maddeuwyd i ti dy bechodau." Yr oedd yn teimlo yn obeithiol mewn perthynas i gyflwr y rhai gwaethaf.

III. Ac mae y teimlad yma o werth yr enaid, ac o fawredd y natur ddynol yn brawf o anfarwoldeb. A ydyw yn debyg yr aiff y peth gwerthfawr hwn i golli gyda sylweddau diflanol y ddaear? A ydyw yn naturiol i gredu fod yr enaid gyda'i gymhwysderau godidog nad ydynt ond yn dechreu cael eu dadblygu yn y bywyd hwn, i gyfarfod ag attalfa ar ffordd ei gynnydd yn mhorth angeu?

Testun Proff. Evans oedd, Heb. xiii. 8., a dywedodd fod llawer o wahanol farnau mewn perthynas iddo; fod ein brodyr Trindodaidd yn casglu Duwdod Crist oddiwrtho; fod Crist, os yn annghyfnewidiol, yw cyfiawnder y cyfiawn i fod arno ef, a drygioni'r drygionus arno

felly, yn Dduw. Yn ol Mr. E. y mae'r annghyfnewidioldeb i'w briodoli nid i berson Crist ond i athrawiaeth neu Efengyl Crist. Darllen Moses yw darllen athrawiaeth Moses, nid ei berson. Ond beth ydyw athrawiaeth Crist? Amrywiaeth barn yma etto. Yn ol y dyb gyffredin cynnwysa yr hyn a ddysgir am y Drindod, yr Iawn, y Codwm yn Adda a'r Codi yn Nghrist, cospedigaeth dragwyddol, &c. Yn ol y dyb Undodaidd cynnwysa (1.) Yr athrawiaeth bwysfawr o *Undod Duw*. Hon o'r blaen yn y byd mae'n wir. Yr Iuddewon yn ei dysgu. Ond gosodai yr apostolion bwys mawr arni, a gofalent ei dysgu pan yn mhlith y Paganiaid. Cristionogaeth yn sylfaenedig arni. (2.) *Cariad* Duw—fod holl lywodraeth Duw yn cael ei gweinyddu mewn cariad. (3.) *Brawdoldeb* dyn—fod pawb dynion o bob oes, iaith a gwlad, yn gyffelyb yn frodyr, plant yr un Tad. (4.) *Ffydd* mewn dynoliaeth—fod gan Grist ffydd mewn dyn, ffydd mewn dynoliaeth, a'i fod felly yn cynnyrchu ysbryd ffyddiog yn mynwesau dynion, yn eu calonogi i ddodi allan bob ymdrech a allant i gyrhaedd gwell sefyllfa. (5.) *Anfarwoldeb*.—Nid yw y syniad hwn yn gyfyngedig i Gristionogaeth. Yr oedd yn y byd o flaen Cristionogaeth, ac mae yn cael ei ddàl tu allan i gyffiniau Cristionogaeth; ond y mae'r hyn oedd yn dywyll o'r blaen wedi ei ddwyn i'r goleu yn awr. Nid oedd Sheol yr Hen Destament a Hades y Testament Newydd ond y byd anweledig, y byd tywyll, lle'r oedd y preswylyddion yn ddi-waith ac yn ddi-yni; dyma'r lle yr aeth Crist pan groeshoeliwyd Ef, yn ol un o gredoau yr Eglwys Sefydledig; ac at hwn y cyfeirir yn y geiriau hyn (1 Pedr iii. 19.) "Trwy yr hwn yr aeth Efe hefyd, ac a bregethodd i'r ysbrydion yn ngharchar." Ond dygodd yr Iesu fywyd ac anfarwoldeb i'r *goleuni* trwy yr Efengyl. Y rhai hyn ydyw athrawiaethau yr Efengyl, y rhai ydynt annghyfnewidiol, y rhai y mae ynddynt addasrwydd i gyfarfod ag angenion dynoliaeth yn mhob oes a gwlad. Ni ddaw amser byth pan fyddant wedi heneiddio, pan fyddant yn ddiangen ac yn hen ffasiwn. Gall celf a gwyddor helaethu terfynau gwybodaeth, ond ni ddaw amser byth pan y teimla y galon ddynol na fydd arni angen mwy am yr egwyddorion hyn.

Boreu dydd Iau, dechreuwyd y gwasanaeth yn Saesneg, gan y Parch. N. R. Williams, Merthyr, ac yn absenoldeb Mr. Higginson a Mr. T. Thomas, pregethodd Mr. Thomas, Llwyn, yn Saesneg, a Mr. Davies, Alltyplaca, yn Gymraeg. [Bwriedid gosod braslun o bregeth Mr. J. yma, ond methwyd. Gobeithiwn wneuthur yn y rhifyn nesaf.—Gol.]

Cymmerodd Mr. Davies, Phil. iii. 19, yn destun, a dywedodd fod Paul yn hoff o'r ymadrodd "bod yn Nghrist." Etto mae'n swnio yn ddieithr yn ein clustiau ni. I lawer nid yw ond swn heb sylwedd. Mae pedwar golygiad y gellir gyssylltu à'r geiriau,—(1.) Bod ynddo fel Crewr byd. (2.) Bod ynddo yn ei gyfundrefn. (3.) Bod yn ei serch. (4.) Bod yn ei gymmeriad. Barnai Mr. D. mae yr olaf oedd y mwyaf rhesymol. Beth yw'r elfenau sydd yn llywodraethu'r cymmeriad? Enaid y celfyddydwr yn byw yn yr hwn a gymmer yn feistr neu yn athraw iddo. Yr ydym oll yn byw yn nghymmeriad y rhai a gymmerwn yn batrwn, yn byw yn eu hyspryd, byw yn eu hamcan. Ond sut mae i Paul fod yn Nghrist heb ei gyfiawnder ei hun? Onid

yntau? A anturiai Paul dynu i lawr yr hyn a godai ei feistr. Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn, &c. Yr oedd rhyw fath o gyfiawnder yn y byd nad oedd yn gyfiawnder mewn gwirionedd, rhyw gyfiawnder seremoniol, cyfiawnder yr hwn oedd o'r ddeddf. Yr oedd Paul i fyny yn hwn. Yr oedd wedi cnwaedu arno yr wythfed dydd, &c. Yr oedd i fyny ag *orthodoxy* y Phariseaid. Ond deliai Crist yn galed â'r cyfiawnder hwn, ac yr oedd Paul wedi ymddihatru oddiwrth ragfarn drosto. Cyfrifai ef yn dom fel yr ennillai Grist. Sefyllfa ogoneddus oedd yr un y dymunai Paul fod ynddi. Nid anmhriodol y desgrifir hi yn y linell hono'. "Dyma fan yn ymyl Duwdod." Y peth mawr yw ymgydweddu â Duw yn holl agweddau natur. Nid oes yr un wedi gorfucheddu cymmeriad Crist. Sut mae i ni ddyfod i'r cyflwr dymunol o fod yn Nghrist? Rhaid i ni aros mwy yn ei gwmniaeth, edrych ar ei daith o Bethlehem i Galfaria, meddiannu ei gydymdeimlad. Os mynwn gynnyddu mewn gwirionedd, mynwn ein cymmeriadau yn Nghrist.

Pwnc y gynnadledd oedd, "Is man ruined or only imperfect?" hyny yw, A ydyw dyn yn hollol lygredig a'i ynte yn anmherffaith yn unig y mae? Llefarwyd arno gan Proff. Evans a Mr. J. Williams yn Gymraeg, a Mr. W. Thomas yn Saesneg, ac os darfu i ni eu deall cytunent mae anmherffaith yn unig y mae dyn. Mae Cwrdd yr haf i fod yn Rhydygwin, a'r Parch. W. James i bregethu. Pwnc y gynnadledd fydd, Rhuf. vii. 19. A all dyn weithredu yn groes i'w ewyllys? neu weithredu heb ewyllysio ar y pryd weithredu fel y gweithreda?

Prydnawn dydd Iau, dechreuodd Mr. R. C. Jones, a phregethodd Mr. Evans, Gellionen. Ei destun oedd Jeremiah xiii. 23. Dangosodd mor nerthol oedd arferion drwg, ac fel yr oedd dyn yn raddol yn myned yn gaethwas iddynt. Trwy hir arfer â drwg, yr oedd yr Israeliaid wedi myned i esgeuluso pob rhinwedd, dwyfol, cymdeithasol, a phersonol. Sylwodd oddiwrth y testun.

I. Fod drwg wedi arfer ag ef yn myned yn ail natur. Er enghraifft (1.) Annghymmedrolder. (2). Bydolrwydd. (3.) Anonestrwydd. (4.) Nwydau maleisus.

II. Fod yr anhawsdra i gael diwygiad ar un wedi ymgynnefino felly â drwg braidd yn anorchfygol. Nid yw dŵwch croen yr Ethiopiad ddim yn gysgod symudol, ac nid yw drwg dyn drwg ddim yn gorphwys yn y gweithredoedd diflanol i'r rhai y mae yn rhoddi bodolaeth. Mae diwygiad dyn drwg yn gynnwysedig yn nadwreiddiad hollol y duedd at wneuthur drwg. I ddodi heibio llid a digofaint a malais, a gwisgo trugaredd, addfwynder a gostyngeiddrwydd; nid dodi heibio rhyw wisg allanol ydyw—newid natur ydyw. Gwaith graddol, gwaith yn gofyn amynedd a dyfalbarhad ydyw.

III. Mae'r fath ymgadarnhau yn bod mewn drwg, ag sydd yn gwneuthur achubiaeth oddiwrtho, trwy unrhyw foddion yn y bywyd dynol hwn o leiaf, yn bob peth ond anmhossibl.

IV. Casgliadau.

(1.) Mae'n bwysig gan hyny i wrteithio rhinwedd a duwioldeb boreuol—"i hyfforddi'r plentyn yn mhen ei ffordd," &c.

(2.) Gochelwn adael hyd derfyn bywyd beth mor bwysig. Ceisiwn ddeall natur edifeirwch. Mae dywygiad yn golygu (*a*) cyfnewidiad tuedd (*b*) tymher ac ansawdd newydd yn y galon, (*c*) diwreiddiad tueddiadau drwg a (*d*) chynnyrchiad o rai da.

(3.) Y pwnc yn rhoddi cyssur ac annogaeth i'r cyfryw a fynant wrteithio bywyd rhinweddol. Cyfreithiau natur yn gyfiawn. Mae Duw wedi mantoli drwg ein cyflwr a chyfartaledd cyffelyb o dda. Megys y mae *drwg* trwy hir ymarfer ag ef yn myned yn reddfol, felly hefyd y mae *da*. Os ydyw bron mor anhawdd iddynt hwy i wneuthur daioni, y rhai ydynt wedi ymgynnefino a gwneuthur drwg, ag yw i'r Ethiopiad i newid lliw ei groen; bron mor anhawdd hefyd ydyw i'r cyfryw hyny i wneuthur drwg yn fwriadol y rhai ydynt wedi ymgynnefino a gwneuthur da, ag yw i'r Ewropiad gwyn i gymmeryd arno liw du.

Yn yr hwyr, dechreuwyd y gwasanaeth gan y Parch. John Davies, a thraddodwyd dwy bregeth, un yn Saesneg gan y Parch. N. R. Williams, a'r llall yn Gymraeg gan y Parch. R. C. Jones. Pregethodd Mr. W. oddiar Iago ii. 17. a'i bwnc oedd y cyssylltiad rhwng ffydd a gweithredoedd. Sylwai nad yw ffydd o un gwerth os na fydd yn cael eu hamlygu mewn gweithredoedd. Ffydd yn golygu (1) credo, (2) hyder neu ymddiried mewn Bod uwchlaw ni ein hunain; ffydd yn sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio, &c.

I. Acth yn mlaen i sylwi ar rai o bynciau ffydd yr Undodiaid. (1.) Rhyddymofyniad. Nid ydynt yn sefydlu credoau, ac yn condemnio pobl nad ydynt yn eu credu. Daliant mai gonestrwydd amcan yw y cam cyntaf mewn materion crefyddol. (2.) Credant yn Nuw fel llywodraethwr y bydysawd, ac fel Tad ei holl blant. Credant yn ei undod ac nid mewn trindod o bersonau; fod ei gospedigaethau yn ddysgyblaeth, ac er lles ei blant, a'i fod yn nylanwad ei yspryd yn bresenol gyda'i greaduriaid. Credant hefyd yn Iesu Grist. Cyhuddir hwy o anffyddiaeth yn y pwnc hwn, a drwgliwir hwy trwy ddweyd nad ydynt yn Gristionogion, a bod ganddynt Feibl gwahanol i enwadau ereill. Cyn ein collfarnu dylai y bobl yma fynychu ein capelau, a darllen ein llyfrau. Yr *ydym* yn credu yn Nghrist fel Gair Duw yn yr ystyr uwchaf, ac fel Iachawdwr y byd, nid yn unig trwy ei farwolaeth ond hefyd trwy ei fywyd gogoneddus. Cyffyrddodd yn fyr hefyd ar y golygiad Undodaidd ar athrawiaeth yr Iawn, anfarwoldeb yr enaid ac ar athrawiaethau ereill lle y gwahaniaethwn oddiwrth yr enwadau poblogaidd.

II. Sylwai nad yw ein cred o ddim gwerth os na fydd yn dwyn ffrwyth mewn ymarferiad. Dylai athrawiaeth fawr tadoldeb Duw gynnyrchu ynom ymddiried ynddo yn oriau tywyllaf bywyd. Y gofyniad pwysig gan hyny ddylem ni fel Undodiaid i ofyn i ni ein hunain yw, A ydym ni yn credu yn wirioneddol yn Nuw fel ein Tad, ac a ydym ni yn ymdrechu gweithredu fel yn ei bresenoldeb? Mae lle i ofni fod llawer o honom yn rhy esgeulus o addoliad cyhoeddus. Sut mae cyfrif am hyny? Dylem ni yn anad neb fod yn ffyddlon yn hyn. Hefyd dylai'r ffaith ein bod yn proffesu credu yn Iesu Grist, fel ein

Hathraw ein harwain i ymddygiad teilwng o ddysgyblion iddo Ef. Cynnydded ffyddlondeb, bydded fod rhagor o deimlad da rhwng enwadau a'u gilydd, a diflaned yspryd sectariaeth o'r byd. Yr ydym yn gwbl hyderus fod arwyddion yr amserau yn y cyfeiriad hyny.

Dygodd Mr. R. C. Jones y cyfarfodydd yma i derfyniad trwy bregeth hapus ac hynod effeithiol ar Gal. vi. 7. Traddododd ei sylwadau gyda nerth a dylanwad anarferol, gan wasgu ar feddyliau y gwrandawyr i gofio fod yn rhaid i'r dyfodol fod yn gynnyrch y presenol, nas gallwn ni ddysgwyl i'r medi fod ond yn ol yr hyn fyddo yr hau wedi bod ; fod yn rhaid i'r hau, a hau yn iawn, gael ei wneuthur yn awr os mynwn ni fedi, a medi yn iawn ddydd a ddaw.

Yn absenoldeb y gweinidog yr hwn oedd yn glaf iawn, syrthiodd i ran Mr. Lloyd, Cwmbach, i drefnu yr holl gyfarfodydd yma, a gwnaeth ei ran yn dda. Cafwyd cynnulliadau lluosog a gwrandawiad astud o'r dechreu i'r diwedd.

PREGETH.

"*Edrychwch am hyny pa fodd y clywoch.*"—Luc viii. 18.

Amcan a dyben pregethu, yn ddiamheu, ydyw diwygiad a hyfforddiad y gwrandawwyr, gan mai dyledswydd y pregethwr yw addysgu'r anwybodus yn egwyddorion gwir grefydd, i annog pawb i fyw yn gyfattebol i'w gorchymmynion, i osod allan addewidion grasol yr Efengyl er annogaeth i'r rhinweddol, ac i rybuddio pechaduriaid a'i cynghori i ymadael â ffyrdd drygioni, ac arfer eu hunain i weithredu cyfiawnder. Dyma'r dyledswyddau ag mae pob gweinidog yr Efengyl yn rhwym o'u cyflawni —dyma'r pethau a ddylent gael eu hystyried fel o'r pwys mwyaf gan hen ac ieuainc, ac am hyny gael eu gosod yn fynych gerbron gwran 'awyr yr Efengyl. Yn awr, os oes y fath ddyledswyddau arbenig yn gorphwys ar y rhai a gymmerant arnynt y caritor o athrawon Crist, a ydyw hi ddim yn rhesymol i feddwl fod eu gwrandawyr dan rwymau cyfattebol? Ydynt, gyfeillion, ac heb lawer o ymdrech o'u tu hwy, ofer yw dysgwyl llawer o ffrwythau oddiwrth dim a all eu gweinidogion wneuthur. Pawb a ddcuant i addoli Duw a gwrando Ei Air, a ddylent yn sier ddyfod gydag yspryd addysgadwy a diduedd cyfattebol i werth a gwirionedd yr athrawiaethau a fo'n cael eu traddodi, y rhai, os byddant yn gyttunol â Gair Duw, y maent dan rwymau neillduol i'w derbyn i'w calonau, a chydsynio â hwy yn eu bywydau a'u gweithredoedd ; os ydyw'r athrawiaethau yn gyttunol â iaith yr Ysgrythyr, meddaf, o herwydd nad oes neb yn rhwymedig i gofleidio syniadau un dysgawdwr dynol, pa mor awdurdodol bynnag y byddo, yn mhellach nag y cydsafant â rheol yr Ysgrythyr. at yr hon y mae gan bob dyn y gallu a'r fraint (yn y wlad Brotestanaidd yma) i appelio, a pha un y mae yn ddyledswydd anhebgorol ar bawb i chwilio gyda diwydrwydd, manyldra, a gonestrwydd. Ac yn ganlynol, ni gawn ein Harglwydd Iesu Grist, pan y llefarai ar bynciau o ddirfawr bwys, yn fynych yn dywedyd wrth ei ddysgyblion, "Yr hwn sydd ganddo glustiau i wrandaw, gwrandawed ;"—pwy bynag sydd ganddo feddwl agored i argyhoeddiad, ystyried

fy ngeiriau, a chaffed ei adeiladu yn y ffydd; at ba gyngor yr ychwanegodd eiriau hynod ein testyn, "Edrychwch pa fodd y clywoch." Ymddengys yn eglur oddiwrth hyn, y gall dynion glywed a gwrando llawer heb ddiwygio na chynnyddu mewn gwybodaeth. Ni gawn ymofyn pa gymhwysderau sy'n angenrheidiol tuag at wrando Gair Duw yn effeithiol—pa gymhwysiadau sy'n ofynol tuag at wrandawiad llesiol a buddiol Ac yn

I. Mae'n anhawdd, os nid yn anmhossibl, i wrando'r Gair gydag un math o leshad, heb duedd flaenorol yn y meddwl i wybod ewyllys Duw. Ac yn

II. Wir fwriad i weithredu yn gydsyniol â'r fath wybodaeth wedi ei chyrhaeddyd hi.

I. Heb dueddiad blaenorol yn y meddwl i gyrhaeddyd gwybodaeth o ewyllys Duw —heb ryw gymmaint o flas ar bethau crefyddol,—gall dynion glywed heb ddeall, a gweled heb ganfod, a hyny, nid o herwydd aneglurdeb neu dywyllni yn y pwnc a lefarir arno, ond yn unig oblegyd fod eu serchiadau wedi cael eu gosod ar wrthddrychau annheilwng, eu hewyllys wedi llygru, a'u barn wedi gwyrdroi. Maent yn caru'r tywyllwch yn hytrach nâ'r goleuni. Maent yn cashau'r gwirionedd, ac am hyny ni ewyllysiant ddyfod i wybodaeth o hono. Hâd yr hauwr, yn y ddammeg ragorol sydd yn diweddu yn ngeiriau'r testyn, fel y clywn, oedd Gair Duw, a'r hauwr oedd Iesu Grist, ac etto nid oedd y ffrwyth ond yn ol rhinwedd y tir ar ba un y cwympai'r hâd. Y galon ewyllysgar ac onest yw'r tir da hwnw yn mha un mae'r Gair hauedig yn sicr o wreiddio a dwyn llawnder o ffrwyth. Ond os annghyfiawnder a rhagfarn a wreiddiasant yn flaenorol yn y galon, mae'n anhawdd iawn i'w diwygio gan bregethiad y Gair, pa gystal bynnag y caffo hyny ei wneuthur.

Ymddengys oddiwrth hyn ddirfawr bwys y ddyledswydd o athrawiaethu plant a phobl ieuainc yn egwyddorion Cristionogaeth, i'r dyben o'u parotoi i wrteithio eu meddyliau pan y delont i oedran cymhwys, ac i greu ynddynt ryw dybiau teilwng am dduwioldeb, cyn y caffo pechod (gelyn eu dedwyddwch) hau ei efrau yno. Ofn yr Arglwydd—amgyffred cyfaddas am Ei fawrhydi, Ei ddaioni, a'i gyfiawnder,—ydyw dechreuad doethineb. Pwy bynag sy'n feddiannol unwaith ar y sylfaen hon i'w grefydd, a arfera bob cyfleusdra i ymofyn pa beth ydyw ewyllys Duw, a chwilia allan yr Hollalluog yn yr ysgrifeniadau hyny yn mha rai y gwelodd yn dda i ddadguddio Ei Hun i ddynolryw; ac i'r dyben i ddeall yn fwy amlwg yr hyn a ddarlleua yn yr ysgrifeniadau santaidd, derbynia yn llawen bob cymhorth a fo o hyd cyrhaedd, sef gwrando pregethau, yn nghyd â darllen llyfrau yn mha rai y trinir pynciau crefyddol.

Y dyn yma a lafuria am y gwirionedd fel am drysor cuddiedig. Ni ddaw i wrando'r Efengyl yn unig o ran arferiad neu er difyrwch, ond am wir les—i'r dyben o gael ei hyfforddi yn, neu o leiaf i gael ei adgofio o'r pethau hyny ag sydd o'r pwys mwyaf iddo eu gwybod. Ac er y daw anhawsderau yn groes i'w feddwl ar brydiau mewn perthynas i'w gred a'i ymarweddiad, rhyw athrawiaethau uwchlaw ei amgyffred, a rhai dyledswyddau a ymddangosant fel tu hwnt i'w allu, etto ni throa yn ol gan ddywedyd, "Caled yw'r ymadrodd, pwy a ddichon wrando arno?" Dan y fath amgylchiadau, yr unig gwestiwn ganddo fe yw, pa un ai Gair Duw ydyw neu beidio, ac os yr ymddengys, oddiar dystiolaeth lawn, ei fod yn orchymyn Duw, mae'r ystyriaeth yma ei hunan yn ddigon i ddystewi pob gwrthddadl a gyfoda yn ei feddwl. Wedi cael unwaith ei argyhoeddi o'r pwnc hwn, mae'n credu gyda gostyngeiddrwydd, ac yn llawn fwriadu i ufuddhau. Mae, heblaw hyn, ryw gymhwysder mewn gwir barch tuag at Air Duw i arwain y meddwl i'r eglurdeb o hono. Pa leshad all y dyn a osoda ei holl fryd ar bethau cnawdol a darfodedig dderbyn oddiwrth wran-

daw Gair Duw? Dim. Byddai cystal iddo aros gartref, neu rodio yn mysg ei dda a'i defaid, a dyfod â'i gorff i dŷ addoliad pan mae ei feddwl yr holl amser yn myfyrio arnynt. Cyn y gall dderbyn un fantais oddiwrth wirioneddau yr Efengyl, mae'n ofynol iddo gael rhyw fesur o ddymuniad yn ei galon i'w perchenogi a mwynhau'r breintiau sydd yn gyssylltiedig â hwy. Gadewch i mi, gan hyny, eich hannog i fyfyrio yn ddyfal ar y trysor gwerthfawr a ddadguddir yn yr Ysgrythyrau, fel ag y caffoch eich cyffroi i weithio allan eich ie hydwriaeth eich hunain gydag ofn a dychryn. Cofiwch, bobl ieuainc, mai hon yw'r unig ffordd i gynnyddu mewn doethineb a gwybodaeth, canys heb arfer y cynneddfau ardderchog a roddwyd i chwi gan Awdwr pob daioni, ofer yw dysgwyl mwynhau'r manteision gwerthfawr a ddylifant yn ol llaw fel pêr ffrwythau o'ch llafur a'ch diwydrwydd. Annoeth yw'r dyn a ddysgwylia gnwd o lafur mewn maes cyn erioed ei aredig na'i hau. Y ffol yn unig a edrych am ydlanau llawn wedi treulio yr haf ac wythnosau y cynhauaf mewn segurdod. Ond nid mwy rhesymol yw'r dyn a addawa iddo ei hun wybodaeth yn ei henaint, heb arfer unrhyw foddion yn amser ieuenctyd tuag at wrteithio ei feddwl a chynnyddu mewn doethineb. Edrychwch, gan hyny, pa fodd y treulioch eich mebyd. Trowch eich traed yn foreu o ffyrdd ynfydrwydd ac anystyriaeth, a rhodiwch lwybrau tawel crefydd a duwioldeb. Cofiwch eich Creawdwr, ac ufuddhewch i'w orchymynion, ac Efe a'ch gwobrwya â'r hapusrwydd puraf hyd y nod yn y byd cyfnewidiol yma. Mae ein bywydau yn wir mor fyr ac ansicr—mor agored i beryglon a damweiniau ar bob llaw, fel ag yr ydym yn hollol anwybodus yn y boreu beth a ddygwydd cyn y prydnawn. Ond yr ystyriaeth yma, yn hytrach nâ'n rhwystro i fod yn ddiwyd yn y pethau a berthynant i'n hiechydwriaeth, a ddylai fod yn annogaeth i ni weithio tra gelwir hi heddyw, fel ag y byddom barod i ymadaw pryd bynnag y gwelo rhagluniaeth yn gymhwys i'n symmud ymaith o'r ystâd hon o brofiad.

[Mae'n bossibl iawn mai dyma'r tro diweddaf y caf fi byth lefaru wrthych yn y lle hwn, canys byr yw bywyd, fel y dywedais yn barod, ac ynfydrwydd i'r eithaf yw i neb addaw iddynt eu hunain lawer o ddyddiau, pan yr ydym bob munyd mewn perygl o gael ein tori lawr gan law angau, a'n rhoddi i orwedd yn ystafelloedd tywyll y bedd. Er na ddylem alaru fel rhai heb obaith, etto mae'n anhawdd iawn i glywed am ddynion enwog a defnyddiol yn cael eu symmud ymaith o dir y byw heb deimlo prudd-der, nid o ran y golled a gânt hwy, ond y golled annhraethadwy a bera ei hymadawiad i'r byd ac i achos crefydd, i lwyddiant y gwirionedd a llesiant cyfiawnder a rhinwedd. Ar yr olwg yma, galarus yw meddwl am y rhwygiadau a gymmerasant le yn ddiweddar yn eich mysg chwi fel Eglwys, trwy gwympiad rhai o'r colofnau mwyaf hawddgar ac ardderchog a gynnalient achos y Dwyfundodiaid yn Nghymru. Yr wyf yn gobeithio y gwel Duw fod yn dda i gyfodi llawer fyny yn y lle a'r gymmydogaeth yma i redeg yr un yrfa ogoneddus ag y gwnaethant hwy, fel ag y byddo i'w enw yn barhaus i gael ei fawrhau yn y rhan hon o'r ddaear, ac y byddo i'r Efengyl yn y purdeb o honi fendithio a chyssuro trigolion Sir Aberteifi hyd ddiwedd amser. I'r dyben yma y cyngor goreu a allaf fi roddi i chwi yw, i ddarllen yn fanol ac ystyriol santaidd Air Duw, i fyfyrio ar ei gynnwysiad, ac i annog ereill o'ch cymmydogion a'ch perthynasau i wneuthur yr un peth.]

Cofiwch mai "pennaf peth yw doethineb," ac o bob rhyw ddoethineb, doethineb crefyddol yw'r pennaf oll. "Gwyn ei fyd a gaffo ddoethineb, a'r dyn a ddygo ddeall allan. Canys gwell yw ei marsiandïaeth hi nâ marsiandïaeth o arian, a'i chynnyrch hi sydd well nag air coeth," &c. Diar. iii. 13—18. Gwnewch a alloch i'r dyben o berchenogi'r cyfoeth hwn, o herwydd mai gwir gyfoeth ydyw—'does dim twyll ynddo,—cyfoeth ydyw ag na'ch sioma; ac yn wahanol i bob cyfoeth arall, efe

a gynnydda yn ei werthfawrogrwydd po nesaf y byddoch i ymadael â'r byd a'r bywyd presenol.

Yn mhlith llawer o foddion ereill a allaswn grybwyll ag sydd i chwi yn ddyfal ac yn barhaus i'w harfer tuag at gynnyddu mewn doethineb a gwybodaeth, na fydded i chwi annghofio y gorchymyn a roddir yn y testyn—"Edrychwch pa fodd y *clywoch*." Na fydded i neb ddyfod i wrando'r Efengyl o dan lywodraeth rhagfarn. Rhagfarn yw'r *tyrant* mwyaf traws-arglwyddiaethol a ddarfu erioed felldithio'r byd a'i bresenoldeb. *Rhagfarn* a gaethiwa'r *meddwl*, ac a gaethgluda bwerau'r enaid ei hun! Oh! rhyddha dy hun gan hyny o dan y fath awdurdod resynus, a chofia, cyn y gallo'r meddwl roddi barn gyfiawn, rhaid iddo fod a'i ddybenion yn gywir ac yn onest,—â'i holl egni yn chwilio am dano fel yr unig beth teilwng o'i ymofyniad.

II. Fel ag y mae'n anhawdd, os nid yn anmhossibl, i wrando'r gair gydag un gradd o leshad heb ryw fath o duedd flaenorol yn y meddwl i wybod ewyllys Duw, felly yn y lle nesaf mae'n gofyn fod gwir fwriad yn y galon i ymddwyn yn unol â'r wybodaeth o hono wedi ei chyrhaeddyd hi. Mae'n ofynol i'r Gair nid yn unig, fel yr hâd ar y graig, gael ei dderbyn yn llawen; ond fel yr hwn a syrthiodd ar y tir da, i wreiddio yn ddwfn, i'r dyben o ddwyn ffrwyth. Dyben gwrando yn gystal a chredu gwirioneddau yr Efengyl yn ddiamheu yw, i drefnu ein buchedd yn ol egwyddorion rhinwedd a chyfiawnder. Traul a phoen aflesiol yw i ni drysori yn y meddwl wybodaeth, os na fydd i ni ddiwygio ein hymarferiadau. Bod yn wrandawyr y Gair yn unig, ac heb fod yn wneuthurwyr, yw twyllo ein hunain; a chofiwn ein bod yn twyllo ein hunain mewn mater o'r pwys mwyaf trwy'r fath ymddygiad. Heb ymdrechu yn wastadol fod ein gwybodaeth grefyddol yn dywysydd i'n traed trwy'r yrfa brofiadol hon, mae achos i ofni y bydd naill ai gofalon, neu gyfoeth, neu bleserau'r byd, yn ol ein hamrywiol alwadau, î ddileu pob argraff a ddarfu erioed wneuthur ar ein calonau. Heb grediniaeth sefydlog yn Ngair Duw tuag at wrthwynebu'r gelynion cadarn yma, sef gofalon, cyfoeth, a phleserau'r byd, ni a fyddwn mewn perygl o gael ein cymmeryd yn gaethion ganddynt bob amser. Ond os cymmerwn attom holl arfogaeth Duw, ni allwn sefyll yn y dydd drwg, ac wedi gorphen pob peth, sefyll."—Eph. vi. 13—17. Mor ogoneddus yn wir yw'r gwobrwyon a addewir i'r rhinweddol yn y byd a ddaw, ac mor echryslawn y darlunir ganlyniadau pechod ac annghyfiawnder yn y Testament Newydd, fel nad oes dim yn cisiau, fe allem feddwl, ond gwir a syml ystyriaeth o'r annogaethau hyn tuag at iawn-lywodraethu moesau ac ewyllysiau creaduriaid rhesymol.

Ymddengys oddiwrth hyn mai dyledswydd bwysfawr pob un yw, i ymarfer â chrefydd gyda dybenion gonest a chywir, ac i wrando'r Gair gyda gwir fwriad i ufuddhau i'r hyn a fo'n gydsyniol â llais rheswm ac ewyllys Duw. Cofiwn yn wastadol fod yr Hollalluog yn sier o'n galw i gyfrif, nid yn unig am ei drugareddau cyffredin, ond hefyd am yr holl gyfleusderau a roddir i ni o glywed a gwybod ei ewyllys. Canys er yr ymddyga Efe tuag at ei greaduriaid rhesymol yn y modd mwyaf cyfiawn, ac er ei bod yn hollol annghydsyniol â'i ddaioni i gospi neb am bechod a dardda oddiar anwybodaeth anocheladwy, etto nid oes neb a all ddywedyd ei bod yn annghyfiawn i'r dyn annuwiol a diofal, i'r gwas diog ac anufudd, yr hwn yn gyndyn a wrthoda wrando addysgiadau a bygythion ei Arglwydd, ac a weithreda yn groes iddynt,—nid yw hi, meddaf, yn y mesur lleiaf, yn annghyfiawn nac yn greulon i'r fath un i dderbyn cerydd cyfattebol i'w esgeulusdra, neu, mewn geiriau ereill, cospedigaeth mwy pwysig na'r dyn na ddarfu erioed gael cyfleusderau i wybod pa beth oedd ei ddyledswyddau.

Nid ydyw gweinidogion Gair Duw yn awr dan ddylanwadau anffaeledig yr Yspryd, pa chwaith mewn meddiant ar bwerau goruwchnaturiol i gadarnhau eu hath-

rawiaeth. Yr holl gynnorthwyon yma a fyddent aflesiol yn awr pan mae crefydd yr Efengyl wedi cael ei phlanu'n y byd, a phan mae'r Ysgrythyr (a roddasid gan ysprydoliaeth Duw) yn agored i bob chwiliwr am y gwirionedd, fel ag mae'n anhawdd i un dyn gyfeilioni yn fawr ac mewn mater o bwys, os ymofyna yn onest a diduedd. Rhyw gymmaint o amser yn ol, nid oedd yn bossibl i Gristionogion i farnu drostynt eu hunain mewn pethau crefyddol hyd y nod yn y deyrnas hon, o herwydd fod yr Ysgrythyrau yn gloedig mewn ieithoedd ag na allai fawr o'r bobl gyffredin eu deall, yr hyn a roddai gyfleu i'r offeiriaid i haeru pethau mor wrthun ag y gwelent yn dda, heb neb yn beiddio eu hamheu. Ond yn awr, diolch i Dduw, mae'n wahanol. Mae hawl gan bob dyn, hyd y nod y gwaelaf,--ïe, mae'n ddyledswydd arno, i brofi pob peth a gynnygir i'w ystyriaeth yn nghylch crefydd, a gwrthod yr hyn a ymddangoso iddo ef yn groes i reswm a chanol swn yr Ysgrythyr. Dyma'r fraint anmhrisiadwy a ennillwyd i ni trwy waed a phoenus ymdrechiadau cannoedd o'r dynion mwyaf duwiol a chywir o bossibl erioed a gymmerasant yn llaw achos crefydd. Y fraint o farnu drosom ein hunain a ddylai fod mor brisfawr yn ein golwg fel Ymneillduwyr Protestanaidd, ac yn enwedig fel Dwyfundodiaid, fel ag y caffom ein llenwi â diolchgarwch tuag at Ddaionus Lywodraethwr y byd am ei drugaredd a'i diriondeb yn ei waith yn ein dwyn i fod mewn gwlad ac amser mor ffafriol i ryddid cydwybod.

Ond, cyn y diweddwyf, gadewch i mi erfyn ar bob un yn bresenol i holi ei hunan,

1. Pa un a ydyw yn feddiannol neu beidio ar y duedd flaenorol ag sy'n ofynol i wrando Gair Duw yn fuddiol ac yn llesiol? Gofyned pob un o honom i'w gydwybod, beth ydyw y dybenion gyda pha rai y deuwn i dŷ addoliad un wythnos ar ol y llall? A oes ynom ddymuniad gwresog a dibaid i gyrhaeddyd gwybodaeth o'r pethau a berthyn i'n tragwyddol iechydwriaeth? Pe byddai'n briodol i mi farnu am danoch chwi oddiwrth fy mrofiad fy hunan, mi feutrwn ddywedyd nad oes gymmaint ag un dros ddeg ar hugain oed yn y lle yma yn bresenol ag na alara yn fynych am y blynyddoedd a gamddefnyddiodd yn ei ieuenctyd—am yr amrywiol gyfleusderau a ddarfu yn ddiofal ac anystyriol eu dibrisio, a'r dyddiau a dreuliodd yn ngwasanaeth pechod a ffolineb. Yn awr, os gwir hyn, pwy o honoch chwi, bobl ieuainc, a rodia yn hwy yn ffyrdd peryglus annuwioldeb? Cofiwch eich Creawdwr. Yn mhen ychydig amser, chwi ellwch edrych yn ol gyda phleser ar y rhan hyny o'ch dyddiau a dreuliasoch yn ngwasanaeth crefydd, ac yn yr ymofyniad am y gwirionedd. Os tlodi fydd eich rhan, nid oes un peth yn fwy tueddol,—ïe, nid oes dim yn fwy effeithiol i weini cyssur a boddlonrwydd yn yr amgylchiadau mwyaf cyfyng, nâ chydwybod rydd a meddwl tawel ac onest. Ond os gwel Rhagluniaeth fod yn dda i wlawio arnoch gyfoeth a llewndid, ni fydd crefydd a duwioldeb yn un rhwystr i chwi i'w mwynhau, ond yn hytrach a'u gwna yn fwy gwerthfawr a llesiol nag a allent fod heb hyny. Mewn gair, ni chlywais i am neb erioed a edifarhaodd yn ei henaint am dreulio o hono foreuddydd ei amser yn ngwasanaeth ei Greawdwr; ond clywais am filoedd a edifarhasant yn chwerw am iddynt erioed fod mor ffol ac anystyriol â chanlyn gwâg gysgodau pleser amserol, a thrwy hyny golli a fforffetio yr unig beth a haeddai'r enw o wir a pharhaus fwynhad o hapusrwydd ac anrhydedd. Os oes ynom, gan hyny, ddymuniad i gyrhaeddyd y gogoniant a'r llawenydd a ddeilliant oddiwrth ffafr Duw, byddwn yn neilltuol ofalus i berchenogi y duedd hono y soniwyd am dani yn barod i wybod ewyllys Duw. Dygwn i'n meddyliau yn fynych anfeidrol werth yr ystâd i ba un a'n dyga, fel y caffom ein hannog i feithrin wir a bywiol ddymuniad i fod yn feddiannol ar y doniau a'n haddasant i'w mwynhau. A byddwn ochelgar rhag gorphwys yn y dymuniad o wybod yn unig pa beth ydyw ewyllys Duw. Ond yn

2. Bydded genym wir, lawn, a gwresog fwriad i weithredu yn gydsyniol a'r fath wybodaeth wedi ei chyrhaeddyd. Cofiwn mai nid gwybodaeth o un radd, hyd y nod o ewyllys Duw, a wna'r tro; ond mae'n ofynol arnom i weithredu yn unol â'r wybodaeth hon cyn y caffom ein haddasu i fyw yn y gwynfydedigrwydd sydd ar ran y rhai a gyflawnant eu dyledswyddau. Y rhinweddau ardderchog a addurnent garitor y cyfeillion enwog a symmudwyd yn ddiweddar o'ch plith chwi, a gynnwysid, nid yn unig y wybodaeth helaeth ag oedd ganddynt am bethau crefyddol, er fod hyn yn glodfawr a chanmoladwy iawn, ond yn hytrach yn manyldra eu bywydau, yn y gofal parhaus a gymmerent i rodio'n addas i'r wybodaeth a gyrhaeddent trwy fawr a gwastadol ddiwydrwydd,—nid yn ngwrandawiad y Gair yn unig, eithr yn ei wneuthuriad,—yn eu gwaith yn profi tu hwnt i bob dadl eu bod yn cael eu llywodraethu gan wir ddymuniad i fyw er lles i'w cydgreaduriaid, er clod i'r grefydd a broffesent, ac er hawddfyd tymhorol a thragwyddol iddynt eu hunain. Na fydded i neb o honom annghofio mai nid yr arferiad o ordinhadau crefydd, nid gwrandaw na phregethu pregethau, nid gweddio ar na chanu mawl i Dduw, nid cario gwynebau athrist, nid neshau at fwrdd yr Arglwydd, nid un peth allanol o'r natur yma, heb gadw gorchymynion Crist, a all wneyd un lleshad i ni; ond mae'n ofynol arnom i weithredu yn unol a'n proffes, i wneuthur cymmaint o ddaioni yn y byd ag a fyddo yn ein gallu, i gynnorthwyo y rhai sydd mewn eisiau, ac i amddiffyn y rhai a erlidir. "Crefydd bur a dihalogedig gerbron Duw a'r Tad yw hyn, ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, a'i gadw ei hun yn ddifrycheulyd oddiwrth y byd." Dyma beth yw crefydd, ac nid ocheneidio ac wylo, a llefaru â'r genau ein bod yn caru Duw; ond gwneuthur daioni, rhodio yn ddichlynaidd, a phrofi â'n gweithredoedd, ac nid â'n gwefusau yn unig, ein bod yn blant i Dduw, ac yn wir a ffyddlon ganlynwyr i'w Fab Ef, Iesu Grist.

Chwefror 18, 1818. TIMOTHY DAVIES, OLDBURY.

[Yr oedd awdwr y bregeth uchod yn fab i Thomas Davis, Pentresion, ac yr oedd Thomas yn fab y Goitre, ac yn frawd i Dafis, Castellhywel. Yr oedd Timothy Davis, o Oldbury, felly yn gefnder i Timothy Davis, Evesham. Bu farw T. D., Oldbury, Ebrill 13, 1849, yn 63 oed, a chladdwyd ef yn Cradley, tua phum milldir o Oldbury. Arferai Mr. D. ymweled â gwlad ei enedigaeth yn achlysurol, a pharotoai bregeth Gymraeg i ddysgwyl taro. Un o'r pregethau hyny ydyw yr un uchod. Pregethwyd hi Gorph. 4, 1818, yn Nghae'ronen, ac yn Nghoedmorfach (yn nhy ei chwaer?) yr un diwrnod, ac yn Nghapel y Grocs, Gorph. 5.]

YR AIFFT A CHANAAN.

LLYTHYR VIII. YR YR AIFFT.

Mae'r *Khedive* (fel y gelwir Rhaglaw yr Aifft—mae'r Aifft yn awr yn ddarostyngedig i Twrci), mae'r *Khedive* yn gwneuthur gwelliantau mawrion yn y wlad yma. Mae wedi gwneuthur heol dda o Cairo i'r Peiramidau, ac mae *guard* o filwyr yma a thraw yn gwarchod yr heol hon. Nis gwn i beth, os nid i attal dyeithriaid i gario'r heol i bant, ac nid oeddwn yn meddu digon o'r iaith i ofyn. Mae ganddynt ddigon o reswm i edrych ar ddyeithriaid pererinawl fel yr edrychwn ni ar y Vandaliaid a'r Gothiaid—fel dinystrwyr pob peth heb reol na

rheswm. Mae John Bull yn wareiddiedig gartref yn mhlith ei gydnabod; mae'n onest, yn gydwybodol, yn foneddigaidd, ac feallai yn grefyddol; ond yn rhy fynych mae'n colli llawer os nid yr oll o hyn pan fyddo oddicartref. Nid oes dim a gaiff lonydd ganddo, ac nid yw o un dyben i ddywedyd wrtho am gadw ei ddwylaw yn llonydd. Mae eisieu arno gael tamaid o farmor o'r fan yma, neu damaid o ryw beth arall o'r fan acw. Fe dyr gwlffyn i ffwrdd yn union oddiar un o'r *statues* mwyaf ardderchog, os tybia y gall wneuthur hyny heb gael ei ddàl, ac wrth gwrs mae eisieu arno anfarwoli ei hunan trwy dori ei enw yn mhob man, ac ar bob peth. Nid oes dim gwahaniaeth ganddo pa ddinystr a gyflawna trwy hyny. Pair hyn wrth gwrs i'r llywodraeth i edrych yn fwy llwyr ar ol y taclau yma yn y dyfodol. Ni fyddai dim niwed eu cospi yn llym. Un ffordd o gospi sydd ganddynt yma yw dynoethi'r traed, taflu'r dyn i'r llawr, codi'r traed i fyny a lachio'r gwadnau yn dda. Diamheu genyf na chawsai gweinyddiaeth felly ddylanwad da iawn.

Beth etto? Pan yr ydym yn cefnu ar y Peiramidau, ac ar y Nilus mae eisieu cofio'r cwbl sydd werth ei gofio. Mewn llythyr blaenorol gwnaethum gyfeiriad at Pharaoh yr Ecsodus. Dywed Syr Gardner Wilkinson, yr hwn fu'n trigianu ddeuddeg mlynedd yn yr Aifft, i'r Ecsodus gymmeryd lle yn mreniniaeth Thothmes III., a bod hen fonumentau yn dwyn tystiolaeth na ddarfu i'r brenin hwn ddim cael ei gladdu gyda'i hynafiaid. Un o ryfeddodau'r Nilus yw y *crocodile*, ond ni chefais i ddim golwg arno fe. Gwelais luaws mawr o adar pert iawn, yr oeddynt bron bod yn wynion, ac yn agos cymmaint a gwydd. Ystyrid hwy yn adar sanctaidd, a chlywais mae yr apis y gelwid hwy. Gwelais hwy yn parotoi moddion tân, math o gacenau crynion tua modfedd o drwch—y defnydd naill ai dom creaduriaid (cled) neu bridd mawnog. Yr oedd y cacenau yma yn cael eu gosod yn yr haul i sychu, ac wedi hyny yn cael eu cario adref. Ceir cyfeiriadau yn yr Ysgrythyr at ddom fel defnydd tân.

Peth cyffredin yn Cairo fel yn Alexandria yw gweled llawer o lanterni ar hyd yr heolydd wedi nos. Dywedir fod dyn yn agored i gael ei gymmeryd i fyny os bydd ar yr heol heb lantern wedi nos. Mae boneddigion fynychaf à gwas ganddynt yn cario lantern o'u blaen. Cwstwm arall a gawn yma yw y gwylwyr a bennodir i ofalu am y tai wedi nos. Dechreuant tua deg o'r gloch, a phob cwarter awr gwaeddant allan mewn llais aflafar, i ddangos eu bod ar eu gwyliadwriaeth. Mae eu swn hwy a'r miloedd o gwn a geir yma yn gwneuthur y nos yn bob peth ond tawel a dystaw (Esay lvi. 10). Gwelsom angladd yma un diwrnod—yn amlwg angladd un o'r bobl gyffredin. Yr oedd y presenolion mewn dillad canolig. Nid oedd y corff mewn coffin. Cludid ef ar fath o noe neu fox bas, chwech neu wyth modfedd o ddyfnder, ac yr oedd yr oll wedi ei guddio à chanfas llwyd. Yr oedd swn y rhai a'i canlynent yn dwyn ar gof eiriau'r Pregethwr (xii. 5),—"Pan elo dyn i dŷ ei hir gartref, a'r galarwyr yn myned o bob tu yn yr heol." Mae dynion yn cael eu hurio i alaru mewn angladdau yn y dwyrain hyd y dydd heddyw. S.

ANGLADD CHINEAD.

Bu farw menyw Chineaidd yn ddiweddar yn Sacramento, California; a chan fod ei gwr mewn sefyllfa dda yn y byd, penderfynodd y mynai iddi yr hyn a ystyriai yn angladd *first-class*. Mae'r Sacramento *Union* yn desgrifio y seremoniau fel y canlyn:—"Tua phump ar gloch yn y prydnawn, gosodwyd y corff mewn coffin hardd ar y llwybr o flaen drws ffront y ty; ac yn ymyl y coffin, yr oedd byrddau wedi eu llwytho á chywion wedi eu pobi, mochyn wedi ei bobi, *rice* berwedig, candy, cnau, brandy, whisky, &c., digon o honynt i gadw ysbryd yr ymadawedig heb deimlo newyn am fis. Cafodd yr holl bethau yma, a'r coffin hefyd, aros ar y llwybr hyd dranoeth, a galarwyr huriedig yn eu hamgylchynu, y rhai a ymddangosent fel yn gwneuthur eu goreu i ragori y naill ar y llall mewn rhoddi cyflawn werth am yr yr arian a dderbynient. Yn y *cemetery*, wedi gollwng y coffin i lawr i'r bedd, acthai y galarwyr a dau o blant yr ymadawedig oddiamgylch y bedd unwaith, tra y safai y gwr yn ddistaw gerllaw. Yna dodwyd y llestri yn cynnwys y bwyd yn y bedd ar ben ac ar draed y coffin, ac ar ol hyny ychydig o bridd. Yn nesaf i hyn, dodwyd cywion a hwyaid byw i mewn, y rhai a guddiwyd yn fuan á phridd. Wedi llanw y bedd i fyny, taenellwyd cyflawnder o whisky a brandy arno, a gosodwyd pen mochyn, cyw wedi ei bobi, rice berwedig, oranges, afalau, cnau, candy, &c., ar ben y bedd. Wedi myned trwy hyn o seremoni, dychwelodd y Chineaid adref yn eu cerbydau, tra y darfu i rai bechgyn Cristnogol, ag oeddynt wedi bod yn gwylied yr olygfa yn fanol iawn, gasglu'r ffrwythau, candy, &c., a dychwelyd o honynt hwythau adref hefyd."

NODIADAU MIN Y FFORDD.

O BOSSIBL nad yw darllenwyr yr YMOFYNYDD, lawer o honynt, ddim yn cael y cyfleusdra yn fynych i weled a chlywed tipyn o "Iawnffyddiaeth" pur. Nid oes dim o'r "genuine article" i'w gael y dyddiau presenol ond mewn rhai manau, a'r manau hyny yn bur annghysbell —tua Gogledd Cymru feallai, neu yn rhyw gornelach o Ysgotland neu Iwerddon. Cwrddir weithiau ag "Efengyl Damnedigaeth" tua'r cyfeiriadau hyny, ac mewn ffurf i daflu i'r cysgod ranau damniol y gredo Athanasiaidd. Ymddangosodd a ganlyn yn ddiweddar fel hysbysiad, mewn man amlwg yn un o brif bapyrau Dublin:—

ANRHYDEDD IESU.

Gochelwch gelwydd y diafol—Undodiaeth.

Mae Damnedigaeth Dragwyddol pawb ydynt yn marw yn Undodiaid yn sier—peth difrifol ofnadwy ydyw hyn. Darllenwch Air Ys-

brydoledig yr Arglwydd Dduw Hollalluog, "Yr holl gelwyddwyr, bydd eu rhan yn y llyn sydd yn llosgi â thân a brwmstan." "Pwy yw y celwyddog, ond yr hwn sydd yn gwadu nad Iesu yw y Crist. Efe yw yr Annghrist sydd yn gwadu y Tad a'r Mab. Pob un a'r sydd yn gwadu y Mab, nid oes ganddo y Tad chwaith; ond yr hwn sydd yn cyffesu y Mab, y mae y Tad ganddo hefyd."

Mae yn ysgrifenedig, "Fel yr anrhydeddai pawb y Mab, fel y maent yn anrhydeddu y Tad. Yr hwn nid yw yn anrhydeddu y Mab, nid yw yn anrhydeddu y Tad yr hwn a'i hanfonodd Ef." Y mae'r Unitariaid yn dianrhydeddu yr Arglwydd Iesu Grist, am yr hwn y mae yn ysgrifenedig, "Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y Gair."

Am hyny, y mae eu damnedigaeth yn sicr. Darllener yr oll o Epistol Cyntaf Cyffredinol Ioan. "Gwaed Iesu Grist ei Fab Ef sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod." "Chwiliwch yr Ysgrythyrau."

Byrddau Ysgol.

Dywedir mae'r ffordd i gael cyfraith ddrwg wedi diddymu yw ei gweinyddu i'r man eithaf. Dyma fel y diddymwyd y *Church Rates*, a dyma'r ffordd i brysuro'r amser i gael diwygiad ar y Mesur Addysg. Yr ydys wedi gwerthu meddiannau un dyn eisoes am ei fod yn pallu talu'r dreth. Yr oedd ganddo wrthwynebiad cydwybodol i dalu treth at ddysgu mewn ysgolion yr hyn nid oedd efe yn ei gredu. Geiriau y Parch. S. A. Steinthal yw y rhai canlynol:—"Mae Mr. Disraeli wedi dadgan ei benderfyniad i ddàl i fyny y 25 Adran o'r Ddeddf Addysg, yr hon ydyw yr asgwrn cynhen rhwng pleidwyr addysg enwadol a phleidwyr addysg rydd. Am dymhor, fodd bynag, mae yn anocheladwy, bydd gwir ddiwygiad yn y mater yma yn agored i bob dichellion y dichon cenfigen sectyddol ei gynnyrchu. Ond yn ngoleuni trafodaeth cyhoeddus, yr ydym yn wastad wedi gweled fod egwyddorion mawrion yn y pen draw yn ennill y dydd hyd y nod yn erbyn cuhni a phob rhagfarn. Pan ddaw dydd y penderfyniad nid trwy ddilëad y 25 adran y penderfynir yr ymdrech. Gallasai hyny, o bossibl, foddloni pe rhoddid ef gan y Senedd diweddaf. Gwnaiff y sicrwydd o'i amddiffyniad beri i'w wrthwynebwyr gynnyg at ddymchweliad yr egwyddor o'r hon nid yw y 25 ond enghraifft, yr oedd amser unwaith, pan y gallesid atal cynhwrf y bobl yn erbyn Deddfau yr Yd, trwy osod treth sefydlog gymmedrol. Yn ffodus, gwrthwynebodd dallineb Ceidwadol bob *compromise*, ac mae'r wlad yn awr yn ymlawenhau yn muddugoliaeth gyflawn egwyddorion Masnach Rydd. Gwnelai estyniad cymmedrol yr etholfraint un amser ohirio am dymhor hir y cynhwrf am yr etholfraint i bob tŷ byw; ond gwrthododd rhagfarn Doriaidd gynnygion Mr. Gladstone, ac felly, daeth mesur Mr. Disraeli yn angen anocheladwy. Mae addysg grefyddol ansectarol, fel y cynnygid ef ar y cyntaf gan y "National Educational League" wedi ei wrthod gan Mr. Foster a chan Mr. Disraeli, nes y mae *compromise* wedi dyfod

yn beth anmhossibl, ac y mae pleidwyr addysg rydd wedi dyfod i weled fod unig obaith eu llwyddiant yn gorwedd yn nghyflawn orfodaeth yr egwyddor fod yn rhaid i'r cynnorthwy o'r trethi i gael ei roi i addysg fydol, ac i addysg fydol yn unig. Pa hyd y bydd cyn byddo'r egwyddor yma yn cael ei chydnabod gan y Wladwriaeth, nid oes neb all ddywedyd. Os gohirir ef am dymhor hir, ni chyfyngir yr egwyddor at ysgolion elfenol, ond gwneir iddo gymmeryd i mewn holl gylch perthynasau y Wladwriaeth i sefydliadau eglwysyddol. Mae gorchfygiad amserol wedi bod bob amser yn rhagredegydd buddugoliaethau mwyaf y blaid Ryddfrydig."

Yn Mwrdd Ysgol Manchester, dydd Llun (Mawrth 30), bu dadl frwd mewn perthynas i ba addysg grefyddol a gawsent ei gymmeradwyo. Yn ei sylwadau, dywedodd Dr. Watts, fod y plant yn y gweddiau yn cael eu dysgu i ddywedyd ar ol yr athraw, "Maddeu ein anwiredd, canys mawr yw." Un noson yn ddiweddar yr oedd ganddo ef blentyn bychan pedair neu bump oed ar ei arffed, ac yr oedd yn gofyn a allai rhyw un ddywedyd y gallasai anwiredd y plentyn hwnw yn bossibl fod yn fawr.—[Alderman Lamb; ganwyd ef mewn pechod.] Dr. Watts (yn wresog): Dyna'r peth yr wyf yn ei wrthwynebu. Yr ydych yn myned i ddysgu athrawiaeth y pechod gwreiddiol, ac yr wyf finnau yn ei chyhuddo fel athrawiaeth angenfilaidd, athrawiaeth sydd yn hollol wrthwynebol i foesoldeb, a'r hon, pe delid hi yn onest, ac ar wahan oddiwrth amgylchiadau cyssylltiadol, ac oddiwrth rinweddau y natur ddynol a wnelai uffern ar y ddaear. Yr oedd efe yn protestio yn mhellach yn erbyn y cynllun, am y gwnai osod i fyny *test* i athrawon, yr hwn a fuasai yn cau allan athrawon Undodaidd, Pabyddion, ac Iuddewon. Nid oedd yn dysgwyl llwyddo yn ei wrthwynebiad, am yr ymddangosai fod y bobl nid yn unig yn nwylaw Eglwys filwriaethus —Eglwys Loegr; ond hefyd Eglwys fuddugoliaethus - Eglwys Rufain; a phan oedd y ddwy yma yn uno dwylaw, nid oedd ond ychydig iawn o obaith i'r rhai hyny a wahaniaethent oddiwrthynt."

Claddfa Richmond.

Mae'r Parch. C. J. Procter, ficer Richmond wedi tynu'r Anrhydeddfurfwyr am ei ben, trwy osod gwal i fyny i wahanu y rhan gyssegredig o'r *Cemetery*. Mae Mr. C. Burt wedi derbyn y llythyr canlynol ar y pwnc oddiwrth Iarll Russell:—

Pembroke Lodge,
Richmond Park, Mawrth 30.

Syr,

Yr wyf yn ddiolchgar i chwi am yr hysbysrwydd yr ydych wedi roddi i mi yn nghylch *Cemetery* Richmond. Mae'n flin iawn genyf nad yw'r cynllun rhesymol a phriodol a wnaed mewn perthynas i'r tir a roddwyd yn 1853, trwy ranu y tir cyssegredig a llwybr traed yn unig, ddim wedi ei ddilyn mewn perthynas i'r tir a roddwyd yn ddiweddar yn ychwanegiad at y *Cemetery*. Dylid deall nad yw Ymneilduwyr ddim yn cael eu goddef yn unig gan gyfraith y tir. Mae gan Bro-

testaniaid a gyduabyddir gan y "Toleration Act," fel y gelwir hi, hawl wrth gyfraith, ar daliad *fee* fechan, i godi adeilad i addoli Duw yn ol eu ffydd a'u seremoniau eu hunain, ac nid oes gan yr ustusiaid yr un ddyledswydd arall ond cydnabod yr hawl yma. Mae pawb o'r cyfryw Ymneilduwyr, gan hyny, fel y cyfaddefodd Arglwydd Mansfield yn 1767 yn sefydledig. Os felly, nid yw Mr. Procter yn gwneuthur ond ei ddyledswydd, wrth ddywedyd fel y gwnaeth, Chwef. 19, 1873, 'Byddaf yn hapus iawn mewn ysbryd cyfiawn a rhyddfrydig i gadw cymmaint o'r tir at gladdedigaeth yr Annghydffurfwyr mewn sefyllfa dda ac addas, yn yr un cyfartaledd ag a godwyd iddynt yn y *Cemetery* gyntaf.' Mae'n syn genyf felly i glywed fod y ficer wedi codi a gorphen gwal, yr hwn sydd wedi ei gosod rhwng y ddwy ran o'r gladdfa perthynol i'r Cydffurfwyr a'r Annghydffurfwyr. Effaith amlwg codi y wal yma fydd gyru i ffwrdd heddwch ac ewyllys da rhwng y Cristionogion y rhai ydynt Annghydffurfwyr. Yn gymmaint ag nas gallaf dybied mae dyma ydyw amcan Mr. Procter, yr wyf yn hyderu y rhydd efe gyfarwyddiadau i'r wal gael ei thynu i lawr, neu ynte y gwnaiff yr esgob no li allan iddo mae dyben dyfodiad Crist ar y ddaear oedd, nid dinystrio heddwch ac ewyllys da, ond eu hysprydoli. Drwg genyf nas gallaf fo l yn bresenol yn y cyfarfod dydd Mercher. Ydwyf gyda llawer o barch, eich ffyddlawn was,

"Russell."

Pasiwyd penderfyniad yn y cyfarfod fod y wal, "yn wrthwynebus ac yn annghyfleus, ac yn groes i ysbryd ac amcan y cytundeb rhwng y vestry a'r ficer, ar yr hwn y cytunwyd i rod li y tir," ac yn dadgan opinwn, barn y cyfarfod y dylai y wal g tel ei thynu i lawr. Cyn terfyn y cyfarfod daeth hysbysiad fod rhyw un we li tafiu'r wal i lawr; ac mae'r ficer wedi cyhoeddi gwobr o £20 am ddal y person neu'r personau maleisus a gymmerasant y gyfraith i'w dwylaw eu hunain. Mae'n debyg fod y ficer wedi codi y wal drachefn ond y mae mesurau wedi eu gosod ar droed i'w orfodi i'w symud ymaith; ac fe geir gweled pa un ai cyfraith y wlad ynte cyfraith y ficer sydd drechaf.

Yn y papur am Ebrill 15, cawn fod yr Esgob wedi cynghori y ficer i symud y wal i ffwrdd, ac felly yn awr ceir terfyn ar y ffrwgwd.

Aliquis.

Marwgofion.

Chwef. 8, yn 65 oed, Hannah Evans, antffynnon, Llanwenog. Merch ydoedd i diweddar Daniel Rees, dilledydd, Llanrhyssul. Bu yn aelod o eglwys y Cribin n flynyddau. Gweinyddwyd ar ddydd ei hangladd gan y Parch. R. C. Jones; ac yna hebryngwyd ein chwaer barchus gan dyrfa luosog i orphwys i fynwent eglwys Llanwnen.

Chwef. 14eg, yn 25 oed, o'r ddarfodigaeth Benjamin Jones, Esgairlygoer, Llanwenog. Claddwyd ef yn mynwent eglwys y plwyf, a gweinyddwyd yn y tŷ gan y Parch. John Davies.

Chwef. 21ain, yn 72 oed, James Davies, Spring Gardens, Cwrtnewydd. Claddwyd ef yn mynwent Llanwenog, a phregethwyd ar yr achlysur i gynnulleidfa luosog gan y Parch. J. Davies. Yn ei ymadawiad, collodd ei blant dad tyner, yr ardal gymmydog tawel a chymmwynasgar, a'r eglwys y perthynai iddi aelod da. Ond na rwgnachwn fod Duw yn galw ei eiddo yn ol.

Mawrth 19, yn 87 oed, Margaret Jones, Penyrheol, Cwmtaf, Penderyn. O gylch deg mis yn ol, symudodd yr ymadawedig o Benyrheol, lle y treuliodd flynyddau lawer, at ei merch Mrs. Williams, Cowbridge Arms, Merthyr Tydfil, lle y canodd yn iach i'r byd hwn ar y dydd uchod. Gadawodd saith o blant a lluaws o berthynasau agos ar ei hol. Y Sul canlynol, hebryngwyd ei gweddillion gan dyrfa luosog iawn i'r Hen-dy-Cwrdd, Cefn-coed-y-cymmer, lle y bu yn aelod am flynyddau. Yn unol a'i chais, ychydig oriau cyn cau ei llygaid yn yr angeu, gweinyddodd y Parch. E. W. Lloyd, Cwmbach, yn ei hangladd, yna rhowd y pridd i'r pridd yn mynwent y capel yn medd y teulu

Mawrth 22ain, yn 39 oed, bu farw T. Protheroe, Masnachydd, Llandyssil. Claddwyd ef dydd Mercher canlynol yn Pantydefaid. Pregethodd y Parch. W. Thomas, A.C. yn y tŷ cyn cychwyn o'r angladd; a gweinyddodd y Parch. T. T. yn y capel.

Mawrth 25ain, yn Lower Salem, Ohio, U.D., Mrs. Jane W. Stanley, yn 31 oed. Merch oedd i'r diweddar David a Sarah Williams, gynt o Aberdauddwr, ger Pumpsaint. Yr oedd yn un a anwylid gan bawb, ac mae pob dosparth yn y gymmydogaeth yn galaru ei cholled, yn gystal a'i gwr a'i pherthynasau agos. Yr oedd yn fenyw o ddoniau a chyrhaeddiadau amrywiol, a defnyddiodd hwy yn ostyngedig ac yn galonog er daioni ereill. Bu yn aelod o eglwys Salem er ei ieuenctyd. Ni ddarfu i'r dduwinyddiaeth hono sydd yn oeri ac yn tywyllu cymmaint o feddyliau erioed gyffwrdd a'i bywyd mewnol. Yr oedd ei hymddiried yn y Tad nefol yn berffaith, a'r diwrnod cyn ei marwolaeth gosodai ef allan yn ngeiriau y Salmydd, "Yr Arglwydd yw fy mugail," &c. Pan oedd rhai o'i chyfeillion ar ymadael y nos cyn iddi farw, dywedodd wrthynt, "Cofiwch y fath brydnawn hyfryd yr ydym wedi dreulio gyda'n gilydd." Ychydig oriau cyn yr anadl olaf siglodd law a'i chyfeillion yn y modd mwyaf serchus; a phan ar fin croesi yr afon, llewyrchodd ei gwynebpryd â rhyw ddysglaerdeb a phrydferthwch nefol, ac edrychodd oddiamgylch ar bawb yn yr ystafell, fel pe yn dweyd wrth godiad ei llaw a gwen ei gwyneb, "Anwyl gyfeillion farewell!"—*O'r "Star in the West."*

Ebrill 11, bu farw James Thomas, Yetgoch, Ffoshelyg, Llandyssil, yn 16 oed. Claddwyd ef yn Pantydefaid y Llun canlynol, a phregethodd T. T. gweinidog y lle.

Barddoniaeth.

CERDDORIAETH.

Rhan o ddwyfol ysbrydoliaeth—y nef
I ni yw cerddoriaeth;
O law Nêr, hwylio wnaeth
I annheilwng ddynoliaeth.

Deddf atdyniad ein serchiadau—moesol,
A miwsig calonau,
Yw swn y gerdd; hi sy'n gwau
Melodedd i'n teimladau.
Trecynon. T. Isaac (Daronwy).

GEIRIAU MWYNION.

Fel gwna'r dwfr wrth gyson dreiglo,
Y graig galed raddol dreulio,
Fe wna geiriau trawsion beri
Holl ffynonau cariad sychu.

Fel gwna'r gwlaw o'r nef sy'n disgyn,
Fwyn adfywio'r hardd flodeuyn,
Geiriau mwynion a wnant felly
Fwyd i gariad pur gynnyrchu.
G. J. N.

Jenkin Howell, Argraffydd, Aberdar.

TALIADAU.

D. E., Troedyrhiw; J. J. (Eiddil Cynon); W. J., Cwmbach; J. E., Blaenllechau; W. R., Bangor; T. Ll., Porthcawl; J. R., Llanelli; W. J., Pontyberem; T. J., Maesygarn; W. H., Cefn; T. T., Bwlch; J. P., Llanelli; J. W., Blaengwrach; W. T., Mill Street; J. R., Cardiff; J. J., Cwmbargod; J. E., Gwernogle; R. P., Blaentrefle; E. E., Parkneuadd.

GWELLIANT GWALLAU.

Yn rhifyn Mawrth, tud. 4, llin. 7 o'r gwaelod, yn lle "gw*e*rth," darllener "gw*ai*th;" tud. 15, darllener "*mis*" yn lle "*blwyddyn*;" tud. 24, colofn 2, llin. 41, "Diha*nfod*" yn lle "Diha*ngfa*." Rhifyn Ebrill, tud. 30, llin. 1 o'r gwaelod, "*yn*" yn lle "*yw*;" llin. 2 o'r gwaelod, "*w*yddom;" tud. 46, yn y Marwgofion, Brace, yn "36" oed.

AT EIN DARLLENWYR.

Anfoner mewn stamps neu order at—"Rev. W. James, B.A., Oxford Street, Aberdare."

Telerau.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor, telir y cludiad.

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,*—

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
ABERDARE.

EISTEDDFOD GELLIONEN.

CYNNELIR Eisteddfod ardderchog yn y Gellionen ar Ddydd Llun y Sulgwyn, pryd y gwobrwyir yr ymgeiswyr buddugol mewn traethodi, barddoni, canu, ac adrodd.

Anfoner *stamp* am y *programme* at Mr. Lewis Hopkins, Cathelid Farm, Cwmclydach, Swansea.

NEW BOOKS.

☞ The following Books may be got from the Editor:—

The Bible and Popular Theology,—A re-statement of Truths and Principles, with special reference to recent works of Dr. Liddon, Lord Hatherley, The Right Hon. W. E. Gladstone, by G. Vance Smith, B.A., Ph.D., one of the members of the Bible Revision Committee.—Free by Post, 3s. Published price, 3s. 6d.

A Memorial Volume of Sacred Poetry, by the late Sir John Bowring, LL.D.—Free by Post, 2s. 6d. Published price, 3s. 6d.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD] MEHEFIN, 1874. [RHIF 16.

CYNNWYSIAD.

Anfarwoldeb 73
Caredigrwydd Didwyll 83
Oddiwrth Galfiniaeth at Undodiaeth 84
Yr Allor Gartref 86
Wythnos ar Lan y Môr—1873 88
Y Cwrdd Blynyddol ac Agoriad Capel Rhydygwin 92
Darnau Byriou 93
Congl yr Holiedydd 93
Gohebiaeth 94
Marwgofion 94
Barddoniaeth 95

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1871. [RHIF 16.

Profwch bob peth ; deliwch yr hyn sydd dda.—PAUL.

ANFARWOLDEB.

"Ac nid yw efe Dduw y meirw, ond y byw."—LUC xx. 38.

Y MAE y greadigaeth anianol mewn llawer ffordd yn cyfateb i'r greadigaeth feddyliol. Mae a ganlyn yn nodwedd gyffredin i'r ddwy:—"Megys y mae bywyd anianol yr hiliogaeth wedi llifo yn mlaen yn ffrwd ddidor o'r dechreuad, felly hefyd ei bywyd deallol." Planhigion a blodeu, dyn ac anifail, a drengant ac a ddiflanant yn unig i ymddangos a byw drachefn. Nid yw dadfeiliad yr hydref, diffrwythder a marwolder y gauaf, ond gwisg deneu am fywyd adnewyddedig. Personau unigol fyddant feirw, tra y bydd yr hil byw. Bywydau unigol a ddileir ymaith, ond bywyd y cyfanswm o naturiaeth ni ddinystrir, a byth nis lleiheir ef. Yn gyffelyb etto, arferion, sefydliadau, cyfreithiau, cyfundraethau, llenyddiaethau, a chrefyddau, a fwynhant eu dydd, a darfyddant a bod ; eithr yn unig i gael eu canlyn gan uwch agweddau, a godidocach dadblygiadau. Fyth fe ganlynir eich Hen Destament gan y Testament Newydd, eich hen oruchwyliaeth gan yr un newydd : yn lle y mwy, daw y llai anmherffaith.

Fel hyn, yn mhob lle ac yn mhob modd, nid yw Duw yn Dduw y meirw, ond y byw. Duw y peirianwaith byw, y meddwl byw, y gyfundraeth fyw, y grefydd fyw ; nid Duw y ffurf farw, y ddefod ddiystyr, y *dogma* diffrwyth, yr egwyddor drancedig. Yn codi uwchlaw pob meddwl blaenorol, yn goroesi pob athrawiaeth a dysgyblaeth flaenorol, y mae meddyliau, ac athrawiaethau, a dysgyblaethau y dydd hwn. Yn narbodaeth ogoneddus y greadigaeth feddyliol, fel yr anianol, ni a barhawn i fyw trwy oroesiad y mwyaf cymhwys,—y syniad, yr ysgrythyr, yr athroniaeth fwyaf cymhwys.

Dewisais y testyn uchod:—"Nid yw efe Dduw y meirw, ond y byw," —y mwyaf cynnwysfawr a'r mwyaf arddunol, dichon, yn yr holl Ysgrythyr, oblegyd yr ystyriaethau canlynol:—

(1) Yr agwedd lwfr a gwan-obeithiol sydd ar lawer o grefyddwyr ein dydd gyda golwg ar yr amseroedd presenol. Oesau anffyddol y cyfrifant y rhai diweddaf hyn. Yn mhell yn ol y mae yr *Ages of Faith*, yn y rhai yr ymfalchïant ac yr ymffrostiant gymmaint. Oddiar ddechreuad y mudiad Tractaraidd, neu Buseyaidd, neu Rufeinig, nad wrth ba enw ei adnabyddir, ychydig gyda deugain mlynedd yn ol, y mae dosparth lluosog yn ein heglwys wladol yn gweled pob gwirionedd a phob santeiddrwydd yn unig yn y canrifoedd Cristnogol cyntaf. Pob traethiad o eiddo y rhai a elwir yn "Dadau yr Eglwys" ar fater o ddefod neu athrawiaeth, cymmerant ef i fyny fel perl o uchel bris. Eu maes cyssegredig yw yr oesau cyn y Diwygiad. Siaradant gyda diystyrwch am Brotestaniaeth; ac am rydd-ymofyniad, edrychant arno fel rhyw gynnyrch bwystfilaidd. Diamheu fod Augustine a Thertullian, Irenaeus a Chrysostom, Jerome ac Ambrose yn ddynion dysgedig, a da ar lawer ystyr—yn ddynion mawr yn eu dydd; ond y cwestiwn yw, ai nid cynnorthwywyr i ni ydynt, ac nid meistriaid; athrawon, ac nid arglwyddi?

(2) Nis gallaf lai na sylwi ar yr ufudd-dod slafaidd, mewn proffes o leiaf, a delir gan fwyafrif Cristnogion ein gwlad i awdurdod (fel ei gelwir) y ddau Destament neu ganon yr Ysgrythyr. Er fod y Beibl yn un o'r llyfrau goreu, os nid y goreu, ag i ni orfod dewis rhyw un llyfr, mae fel pob peth goreu, yn agored i'r camddefnydd gwaethaf. Mae wedi helpu y byd yn mlaen lawer; mae camddealldwriaeth a chamddefnydd dynion o hono wedi bod yn un o brif achosion diffyg y cynnydd priodol mewn gwybodaeth dduwinyddol, a rhyddid gwladol ac eglwysig. Ac yma, nid yw o gwbl yn ofyniad pwrpasol:—A fynech fyned a'r Beibl oddiarnom? Na fynwn, ond eich dysgu i'w ddefnyddio fel ag i hyrwyddo, ac nid i rwystro eich dadblygiad meddyliol. Nac ychwaith,—Ai dyma'r diolch a dalwch i'r hen lyfr am y lles a gawsoch oddiwrtho? Nid anniolchgarwch yw yr ymgais i osod pob peth ar ei dir a'i sylfaen briodol. Ystryw wael yw galw hyn yn anniolchgarwch, er tynu sylw'r bobl oddiwrth y gwir gwestiwn:—I ba beth yw'r Beibl da? Na wrandawer ar gyhuddiadau o'r fath.

(3) Daw geiriau'r testyn i'r meddwl wrth gofio yr afael wydn sydd gan athrawiaethau proffwydoliaeth a gwyrthiau etto ar fwyafrif proffeswyr Cristnogol ein gwlad. I lawer nid yw pynciau ereill ond rhagorsafoedd (*out-posts*), am y rhai nis gofalant gymmaint, tra y cyfansodda y ddau bwnc hwn yr amddiffynfa—y *fortress* fawr am yr hon y rhaid ymladd hyd at waed; yn enwedig y gwyrthiau, dyma *rallying cry* diweddaf *orthodoxy*; yn bendifaddeu, "adgyfodiad Crist" foreu y trydydd dydd. Mae holl fawredd a gogoniant Cristnogaeth yn troi ar yr un ffaith neu ddim-ffaith hon: cystal ganddynt, gwell dichon, Socrates, Seneca, M. Aurelius, na'r Iesu, oni bai fod ei adgyfodiad wedi dwyn bywyd ac anllygredigaeth i oleuni. Glynant wrth y wyrth goronol hon nes llwyr ymwrthod â phobpeth a alwant yn Gristnogaeth. Er bod yn gymmodlawn i ymadael ag amrai wyrthiau ereill,

nid yw hyny ond i lynu yn fwy taer wrth y wyrth anwyl hon, a'r hyn oll sydd, yn ol addysg yr eglwysi, wedi ei gyssylltu â hi.

Yn wir, nis gall fod yr amser yn mhell i symmud yn mlaen. Bydd yn syndod annrhaethol os y try "adgyfodiad Crist" allan i fod yn Alpha ac Omega crefydd. Na alwer gwyddor yn wyddor, na rodder dim pwys ar dystiolaeth synwyrau corff, nac ar eiddo cynneddfau meddwl, os yw traddodiad neu chwedl i farchog ein duwinyddiaeth i lawr yr holl ganrifoedd.

O bob bod adnabyddus i ni, dyn yw y mwyaf blaen-fynedol. Nid oes gan hanes i'w gofnodi unrhyw yrfa mor fawreddog a gyrfa gynnyddol yr hil ddynol. Dechreuodd dyn yn isel iawn; planai ei droed ar randiroedd disathr ac annghyfannedd. Gorfyddid iddo lafurio gyda'r gweithiau mwyaf syml ac elfenol; bu yn hir yn dysgu byw yn rhywlun o gyssurus; ond mor ddidroi yn ol y mae ei gynnydd wedi bod! Y mae ei fynediad yntau allan er dyddiau tragwyddoldeb. Bu yn cael allan ddefnyddioldeb tân, yn dyfeisio iaith, yn nyddu ei chwedloniaeth farddonol, yn tywallt allan o'i galon anhyfforddedig ei salmau o fawl a'i *litanies* o ymbil; yn arfer ei hun i'r gelfyddyd o lywodraethu; yn meithrin llenyddiaeth oludog mewn aml i ardal o'r ddaear; yn adeiladu ei allorau a'i demlau; yn tynu allan ei gyfammodau rhyngwladwriaethol. Ac yn hyn oll, pa gofnod o gynnydd! Pa argoelion o fywyd, ac nid o dranc!

Etto, nid gyrfa uniawn yw gyrfa cynnydd dyn. Yn fynych efe a oeda ac a ymddirwyna o gylch fel yr afon ar y gwastadedd. Ond fel na ddychwel yr afon fyth yn ei hol tua'r ffynonell, ond yn mlaen tua'i chartref yn yr eigion; felly hefyd, yn mlaen, ac nid yn ol, y mae tynfa dyn. Er mai yn y buad y mae paradwys duwinyddiaeth, yn y dyfodol y mae eiddo dynoliaeth. Y mae ffurfafen bywyd yr hiliogaeth erioed yn frith o ser addewid; ydyw, yn glaer gan oleuni swynol ffydd ddidranc mewn *ideal* etto heb ei gyrhaedd. Ar faner pob oes yn argraffedig, er nid heb gael ei wneyd yn aneglur gan law ofergoeledd ac anwybodaeth yn fynych, y mae "*Excelsior*" (Uwch!). Ymddengys nad yw dim a enillwyd unwaith, dim gwir lesiol, yn myned ar goll, neu yn marw allan, ond ar ryw ffurf yn cael ei drosglwyddo i oesau dilynol. Yr ydym ni, gan hyny, yn yr oes hon yn etifeddion yr holl oesau, cyfranogion o olud meddyliol a moesol cenedlaethau lu. Mae defosiwn syml y meudwy, duwiol fyfyrdodau y sant, gwaed ardderchog lu y merthyri, drud fuddugoliaethau rhyddid, doethineb corfforedig athronwyr a gwleidiadwyr, llifeiriant hyawdledd anhunanol, ffyddlondeb cyfeillgarol, oll yn feini yn adeiladaeth gadarn a gorwych y gymdeithas ddynol. Ant oll i gyfansoddi gwareiddiad dwfn ein hoes ni. Yn y modd hwn, y mae Duw bob amser yn bresenol yn hanes y byd; fyth yn cael ei ddadguddio yn helyntion y ddaear; o hyd i gael ei weled a'i deimlo yn nerth byw, yn allu gweithgar; yn wir, Duw y byw, ac nid y marw yw.

Mae pob gwybodaeth, pob gwyddor, pob doethineb, pob medr, yn ddadguddiad o Dduw. Gwasanaetha darganfyddiadau yr athronydd, dyfeisiadau y celfyddydwr, ceinciau ysprydoledig y beirdd, gorchestion

y dyngarwr, doniau amrywiol gwyr a gwragedd, i ddwyn Duw ger ein bron yn ei bresenoldeb byw ac arosol. I'r graddau, gan hyny, ag yr ychwanegom ni at ystorfeydd ein gwybodaeth, y lluosogom ni rinweddau a gwroldebau ein bywyd, y gwnelom ni ein hunain yn gyfryngau amgeledd a chysur i bawb o gylch i ni; y llwyddom i wasgaru cymmylau anwybodaeth, nwydau drwg, a rhagfarn: i'r graddau hyn y deuwn yn *channels* santaidd, trwy y rhai y llifa ffrydiau grisialaidd doethineb, daioni, a chariad dwyfol. Daw y corff yn drigfa'r Duw byw; troir y meddwl i fod ei santaidd santeiddiolaf. Daw ein cartrefi bob un i fod yn ganolbwynt caredigrwydd a thiriondeb duwiol. Daw ein gorchwylion mwyaf cyffredin, ein cylchwaith beunyddiol, ein rhedeg yma a thraw o un ystafell ddyoddef i ystafell ddyoddef arall, daw ein geirwiredd manwl, ein sobrwydd, ein cydymdeimlad, i fod yn fwy derbyniol gwasanaeth i Dduw na seremoniau mwyaf ysplenydd eglwysi a themlau, na chywyddau (*strains*) per-lesmeiriol miwsig *mosques* a *cathedrals*.

Dywedais fod dyn ar ei gynnydd ond nid mewn llinell uniawn. Mae o hyd yn syrthio i gamsyniadau, a chamsyniadau o'r fath mwyaf enbyd. Ond trwy hyn etto fe'i dysgir. Daw ei gamsyniadau i fod ei ddysgyblaeth yn y pen draw. Syniadau rhanol, gwirioneddau wedi hanner eu dysgu, tybiau amrwd, breuddwydion ofergoelus, dulliau o feddwl a chynlluniau o weithredu anaddas i'w hamcan; y rhai hyn oll, er rhyfedded, a ddeuant gydag amser i fod ein *stepping stones* i wybodaeth well, yn fanau i gychwyn allan o honynt at olygiadau clirach a lletach.

Nid gwyrthiol yw cynnydd dyn. Os dysg hanes ddim y tu hwnt i amheuaeth, hi a ddysg hyn. Un peth yw fod crediniaeth mewn gwyrthiau wedi bod yn gyffwr i bob cenedl i basio trwyddo, peth arall hollol yw fod ein dyrchafiad fel hiliogaeth o natur wyrthiol. Byddai yn llawn cystal dweyd mae trwy ddewiniaeth y mae dyn wedi cyrhaedd i'r man lle mae, a dweyd mai yn wyrthiol y gwnaeth hyn. Na, rhed deddf lym a manwl achos ac effaith trwy y cyfan. Gwella y mae dyn erioed trwy ymarferiad à moddion gwella. Nid oes modd neidio yn mlaen. Rhaid i bob buddugoliaeth newydd gael ei hennill yn deg, a'i dilyn allan i'w holl ganlyniadau.

Cwestiwn ymarferol dwys, gan hyny, yw pa mor ffyddlawn y defnyddiwn y cyfleusderau goreu er ein gwrteithiad meddyliol a moesol. Yr ydym yn eithaf [tueddol] i goleddu syniadau a'n camarweiniant ac a'n rhwystrant yn ein gyrfa yn mlaen. Dichon i ni orwedd dan lywodraeth dulliau o feddwl ydynt allan o amser. Ac yma dymunwn siarad gyda phwyslais neillduol tra yn nodi allan ddau gamsyniad o'r mwyaf niweidiol.

(1.) Y duedd i ddysgwyl am ddiweddiad neu derfynoldeb (*finality*) mewn duwinyddiaeth. Gan lawer nis edrychir ar y wyddor am grefydd fel un gynnyddol, a chanddi ystor o drysorau etto yn nghudd, yn aros i gael eu dadguddio. *Sealed packet* oedd ei braint-lythyr ar y dechreu, i gael ei agor a'i egluro gan urdd eneiniedig, yn feddiannol ar fwy neu lai o anffaeledigrwydd. Ar fanerau poblogaidd duwinyddiaeth y dydd, bron yn ddieithriad, yr arwyddair yw: *Theology is no science.* Beth